**Dyddiad:** 15 Mawrth 2000

**Amser:** 9.15am i 12.20pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## Dogfen Ymgynghori Amcan 2

### Diben

1. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar ran Partneriaeth Dwyrain Cymru yn nodi ei chynigion ar gyfer Dogfen Rhaglennu Sengl ddrafft (SPD) yn ymdrin â'r amcanion cyffredinol a'r strategaethau i'w dilyn yn ardaloedd Amcan 2 Dwyrain Cymru. Gwahoddir y Pwyllgor i ddatgan:

- a yw'n dymuno cymryd unrhyw ran yn y broses ymgynghori;
- a oes sylwadau ganddo ar y ddogfen yr hoffai fynd i'r afael â hwy yn ystod y cyfnod ymgynghori;
- beth yw'r amserlen yr hoffai ei dilyn wrth ystyried canlyniad y broses ymgynghori a pharatoi'r ddogfen derfynol i'w chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.

### Cefndir

2. Ar 22 Rhagfyr 1999 cymeradwyodd y Comisiwn Ewropeaidd mewn egwyddor gynigion ar gyfer ardaloedd Amcan 2 newydd mewn rhannau o Ddwyrain Cymru. Mae copi o'r map yn Atodiad A i'r papur hwn.

3. Bydd cyfanswm y gyllideb ar gyfer ardaloedd Amcan 2 newydd yng Nghymru tua £50m dros y cyfnod chwe blynedd rhwng 2000-05.

4. Fel rhagbaratoad ar gyfer y penderfyniad hwn, ffurfiwyd Partneriaeth Dwyrain Cymru i roi ystyriaeth ragarweiniol i gynnwys y Ddogfen Rhaglennu Sengl a gaiff ei chyflwyno yn y pen draw ac i dderbyn cytundeb y Comisiwn Ewropeaidd. Rhestrwyd cynnwys y Bartneriaeth yn Atodiad A i'r ddogfen ymgynghori.

5. Cytunodd y Bartneriaeth y dylid ceisio'r amrediad ehangaf posibl o sylwadau ar ei hargymhellion ac mae'r ddogfen ymgynghori yn ffurfio rhan o'r broses honno. Mae copi o'r ddogfen yn Atodiad A i'r papur hwn. Caiff ei dosbarthu i nifer fawr o sefydliadau a grybwyllwyd gan y Bartneriaeth a bydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd. Bydd modd mynd ati hefyd ar wefan y Cynulliad.


6. Daw’r cyfnod ymgynghori i ben ar 17 Mawrth, ond o ystyried yr oedi mewn cyhoeddi’r ddogfen fe dderbyniwn atebion am gyfnod ar ôl hynny. Wedyn, bydd y Ddogfen Rhaglennu Sengl ddrafft yn cael ei datblygu a’i chyflwyno i’r Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod fis Ebrill. Cynhelir trafodaeth mewn cyfarfod llawn i ddilyn. Y bwriad yw i’r Ddogfen Rhaglennu Sengl ddrafft derfynol gael ei chyflwyno i’r Comisiwn yng nghanol mis Mai.

7. Wrth ddatblygu’r Ddogfen Rhaglennu Sengl, bydd y bartneriaeth yn sicrhau synergedd â’r Cynllun Datblygu Gwledig (RDP). Mae un Blaenoriaeth arfaethedig, "Adfywio’r Economi Amaethyddol" yn cyd-fynd â’r Cynllun ac un arall, "Mynd i’r Afael ag Ymyledd Gwledig a Chymunedau sy’n Datblygu" yn ymdrin â phroblemau eithrio cymdeithasol. Byddai’r ddau yn targedu arwynebedd gwledig o fewn Amcan 2 ac arwynebedd rhaglen drosiannol (Powys a’r ardaloedd perthnasol Wrecsam a Sir Fynwy).

Is-adran Materion Ewropeaidd
Mawrth 2000

---

**Atodiad 1**




© The National Assembly for Wales
CartoGraphics, Planning Division



© The National Assembly for Wales CartoGraphics, Planning Division

---

**Atodiad 2**

**AMCAN 2: 2000- 2006**

Bydd yr ardaloedd Amcan 2 newydd yn Nwyrain Cymru yn cynnwys y canlynol.

Y wardiau canlynol yng Nghaerdydd

- Adamsdown
- Butetown
- Grangetown
- Riverside
- Trelái
- Caerau
- Treganna
- Y Sblot
- Tredelerch
- Trowbridge

Y wardiau canlynol yng Nghasnewydd

- Maerun
- Graig
- T-du
- Parc Tredegar
- Liswerry
- Llan-wern
- Stow Hill
- Y Betws
- Pillgwenlly

Y wardiau canlynol ym Mhowys:

- Llanrhaeadr-ym-Mochnant

- Llansilin
- Aber-Craf Bronllys
- Buallt
- Cwm-twrch
- Errwd
- Felin-fach
- Llanafan Fawr
- Llangamarch
- Llanwrtyd
- Llywel
- Maes-car
- Tawe Uchaf
- Ynyscedwyn
- Yscir
- Ystradfellte
- Ystradgynlais
- Banwy
- Aberriw
- Cadfarch
- Caerss – Lanwnnog?
- Carno
- Yr Ystog
- Dolforwyn
- Ffordun
- Glantwymyn
- Cegidfa y tu mewn
- Cegidfa y tu allan
- Ceri
- Llanbryn-mair
- Llandinam
- Llandrinio
- Llandysilio
- Llanfair Caereinion
- Llanfihangel
- Llanfyllin
- Llangurig
- Dwyrain Llanidloes
- Gorllewin Llanidloes
- Llansanffraid
- Llanwddyn
- Machynlleth Rhif 1
- Machynlleth Rhif 2
- Meifod

- Mochdre
- Trefaldwyn
- Canol y Drenewydd
- Dwyrain y Drenewydd
- Gogledd Llanllwchaearn y Drenewydd
- Gorllewin Llanllwchaearn y Drenewydd
- De Rhiwcynon y Drenewydd
- Trefeglwys
- Tre-wern
- Castell y Trallwng
- Gungrog y Trallwng
- Welshpool Llanerchyddol – Llannerch Hudol y Trallwng
- Bugeildy
- Cleirwy
- Diserth a Thre-coed
- Llanfair Llythynwg
- Y Clas-ar-Wy
- Glasgwm
- Trefyclo
- Llanbadarn Fawr
- Llanbister
- Dwyrain Llandrindod
- Gogledd Llandrindod
- De Llandrindod Rhif 1
- De Llandrindod Rhif 2
- Gorllewin Llandrindod
- Llanelwedd
- Llanfihangel Rhydieithon
- Llangynllo
- Llansanffraid Cwmteuddwr
- Llanllr
- Nantmel
- Maesyfed
- Pencraig Llanbedr Castell-paen
- Llanandras
- Tref Rhaeadr Gwy Saint Harmon

**CYFANSWM Y BOBLOGAETH - 270,000**

---

**Atodiad 3**

# Partneriaeth Dwyrain Cymru

# Rhaglen Amcan 2 a Throsiannol Dwyrain Cymru

# *Dogfen Ymgynghori*

Chwefror 2000

## Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | **Rhagarweiniad** | **3** |

- *Crynodeb*
- *Ardaloedd Cymwys*

- *Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 2 a Throsiannol Dwyrain Cymru*

**2** **Pwrpas Ymgynghori** **7**

- *Dogfen Ymgynghori*
- *Proses Ymgynghori*
- *Partneriaeth Dwyrain Cymru*

**3** **Gweledigaeth y Rhaglen** **9**

**4** **Proffil yr Ardal** **10**

**5** **Strategaeth y Rhaglen** **11**

- *Strategaeth ar gyfer Dwyrain Cymru Wledig*
- *Strategaeth ar gyfer Dwyrain Cymru Trefol*

**6** **Blaenoriaethau a Mesurau** **21**

- *Natur Gystadleuol mewn Busnes a Menter*
- *Adfywhau'r Economi Amaethyddol*
- *Adfywhau Cymunedau Drefol*
- *Ymdrin â'r Ffaith fod Ardaloedd Gwledig ar yr Ymylon a Datblygu Cymunedau*

**7** **Tablau Ariannol** **42**

| | | |
|---|---|---|
| **8** | **Gweithredu** | **43** |
| **Atodiadau** | | |
| **A** | **Partneriaeth Dwyrain Cymru - Aelodaeth** | **44** |
| **B** | **Cymru: Ardaloedd sy’n gymwys i dderbyn Cefnogaeth Rhaglen Cronfa Strwythurol yr UE (2000 - 2006)** | **45** |


# Adran 1 Rhagarweiniad

## 1.0 Crynodeb

Gofynnir am eich barn yngl~n ag argymhellion a gyflwynwyd gan Bartneriaeth Dwyrain Cymru ar gyfer y fframwaith strategol i gyflwyno Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd drwy Amcan 2 a threfniadau trosiannol ar gyfer y cyfnod rhaglennu 2000 - 2006. Bydd y fframwaith hon yn ffurfio sail ar gyfer Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 2 a Throsiannol Dwyrain Cymru a gyflwynir i’r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Ebrill.

Anelir Cronfeydd Strwythurol a gyflwynir o dan Amcan 2 a pheirianwaith trosiannol at gwtogi ar y gwahaniaethau economaidd o fewn Rhanbarth Dwyrain Cymru a bydd hyn yn hyrwyddo cydlyniad economaidd a chymdeithasol. Bydd y rhaglen Amcan 2 (2000 - 2006) yn ymdrin â’r wardiau cymwys hynny sydd angen eu hail-strwythuro yn economaidd mewn ardaloedd *trefol* (rhannau o Gaerdydd a Chasnewydd) ac ardaloedd *gwledig* (rhan sylweddol o Bowys) o fewn Dwyrain Cymru.

Bydd yr Amcan 2 newydd yn gwneud defnydd o ddwy o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd:

- **Y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd (ERDF)** - sy’n cynnal prosiectau buddsoddi economaidd (cyfalaf) a gwariant refeniw ar gefnogi menter, adfywhau economaidd, cymunedol ac ati.
- **Y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF)** - sy’n cefnogi mesurau hyfforddi, cyngor/ arweiniad, treialon gwaith/profiad gwaith, cyngor wrth chwilio am swyddi, cymorthdaliadau cyflogau i gyflogwyr ac ati *(gweler para 1.2.1 (iv), tudalen 4).*

Bydd ardaloedd trosiannol yn gallu gwneud defnydd o gronfeydd ERDF drwy Raglen Amcan 2 a Rhaglen Drosiannol Dwyrain Cymru yn unig, am gyfnod o hyd at chwe blynedd o 1 Ionawr 2000 * (* Bydd ESF yn hygrych drwy bob rhan o Ddwyrain Cymru drwy raglen Amcan 3.)

## 1.1 Ardaloedd Cymwys

1 .1.1 Cyflwynwyd argymhellion ar gyfer sut i ddefnyddio Amcan 2 ar gyfer Dwyrain Cymru i’r

Comisiwn Ewropeaidd ar 8 Hydref 1999. Rhoddwyd cymeradwyaeth dros dro i argymhellion y DG ar 22 Rhagfyr 1999 gan y Comisiwn Ewropeaidd [gweler map yn Atodiad B]. Derbyniwyd cadarnhad hefyd yngl~n â’r dyraniad ariannol ar gyfer ardal Amcan 2 arfaethedig Dwyrain Cymru sef cyfanswm € 78m [tua £50 miliwn). Mae arian ar gyfer ardaloedd trosiannol yn gwneud cyfanswm o tua £18 miliwn.

- ***Amcan 2: Trefol***

  Yr ardaloedd o fewn Dwyrain Cymru Drefol a sicrhaodd Amcan 2 oedd y rhan hynny oedd yn perthyn o fewn 10% uchaf y wardiau gyda'r mwyaf o amddifadedd ym Mhrydain pan ddefnyddiwyd set o newidynnau y tybid eu fod yn arwyddol o amddifadedd trefol/ diwydiannol. Roedd dangosyddion amddifadedd, tlodi ac eithrio yn cynnwys:

  - diweithdra tymor hir
  - dibyniaeth ar fudd-daliadau’r wladwriaeth
  - dwysedd poblogaeth

  Mae ardaloedd cymwys yn cynnwys 10 ward yng Nghaerdydd (117,600 o boblogaeth) a 9 ward yng Nghasnewydd (poblogaeth o 51,900).

- ***Amcan 2: Gwledig***

  Sicrhaodd Dwyrain Cymru Wledig Amcan 2 ar ôl cymhwyso meini prawf yn ymwneud â natur wledig amaethyddol a thenau ei phoblogaeth yr ardal sef:

  - cyflogaeth ym myd amaethyddiaeth yn fwy na 10% o’r holl swyddi; dwysedd poblogaeth yn llai na 95 o bobl y km sgwâr a chyfraddau cyflogaeth yn llai na 81.5%
  - wardiau sydd wedi eu dynodi fel rhai sydd â Thir o dan Anfantais Ddifrifol (SDL)
  - oed cyfartalog ffermwyr ym Mhowys yw 54 o’i wrthgyferbynnu â’r cyfartaledd o 38 yn yr UE ac mae’n boblogaeth sy’n heneiddio.

    Mae’r ardaloedd cymwys yn cynnwys 84 o wardiau ym Mhowys (102,700 o boblogaeth).

- **Ardaloedd Trosiannol**

  Yr ardaloedd sy’n gymwys am arian trosiannol yw’r rhannau hynny o Ddwyrain Cymru a oedd yn gymwys yn flaenorol am gefnogaeth y Gronfa Strwythurol o dan naill ai raglen

Amcan 2 De Cymru Ddiwydiannol neu raglen Amcan 5B Cymru Wledig 1994-1999, ond nad ydynt bellach yn gymwys am raglen newydd Amcan 2.

Mae ardaloedd cymwys yn cynnwys rhannau o Gaerdydd, Casnewydd, Powys, Sir Fynwy, Bro Morgannwg a Wrecsam.

## 1.2 Dogfen Raglennu Sengl Amcan 2 a Throsiannol Dwyrain Cymru

1.2.1 Bydd Dogfen Raglennu Sengl Amcan 2 a Throsiannol Dwyrain Cymru yn cynnig gorolwg strategol ar y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a'r bygythiadau sy’n wynebu’r ardal, ac yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu i ymdrin â’r materion hyn. Mae’n rhaid i’r Ddogfen Raglennu Sengl gael ei chymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd cyn y gellir sicrhau arian ar gyfer y Rhaglen. Bydd y Ddogfen Raglennu Sengl yn ddogfen gynhwysfawr yn rhoi manylion am lawer agwedd sy’n berthnasol i ardal Rhaglen Dwyrain Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

(i) **Dadansoddiad o’r Sefyllfa Gyfredol**

Mae’r rhaglen hon yn rhoi proffil o’r ardal i ymdrin â hi gan ardal Rhaglen Dwyrain Cymru ac yn cynnwys dadansoddiad cryf, manwl a mesuredig o’r sefyllfa gyfredol, wedi ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae’r agweddau yn cynnwys:

1. Poblogaeth a Chymdeithas
2. Y Cyd-destun Economaidd Cyffredinol
3. Y Farchnad Lafur
4. Y Farchnad Eiddo
5. Is-adeiledd a Gwasanaethau
6. Y Sefyllfa Amgylcheddol

(ii) **Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT)**

Mae’r adran hon yn canolbwyntio ar brif gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau ardal Rhaglen Dwyrain Cymru (cyffredin, gwledig a threfol) y mae llawer ohonynt yn ymddangos hefyd yn yr adran ‘Dadansoddiad o’r Sefyllfa Gyfredol’. Mae’n datblygu ar waith sylweddol yr Asesiad Rhanbarthol a gefnogwyd yn llawn gan Bartneriaeth Dwyrain Cymru*. Mae gwneud dadansoddiad SWOT yn ddull defnyddiol o ganolbwyntio ar brif nodweddion yr ardal a’r materion cysylltiedig i ymdrin â hwy gan y Rhaglen .

* Cyfarfod Partneriaeth llawn Dwyrain Cymru - 14 Rhagfyr 1998

(iii) **Ymyrraeth Blaenorol gan Gronfeydd Strwythurol yr UE yn y Rhanbarth**

Rhoddir ystyriaeth i weithredu ac effaith rhaglenni blaenorol Cronfa Strwythurol yr UE yn ardal Dwyrain Cymru, gan gynnwys dadansoddiad manwl yn deillio o Weithrediaeth Rhaglenni Ewropeaidd

Cymru Cyf.

### (iv) **Cyd-destun y Polisi Cyfredol**

Mae Dogfen Raglennu Sengl Dwyrain Cymru yn cynnig dadansoddiad ac adnabyddiaeth o faterion sy’n ymwneud yn arbennig â chyflawni datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaladwy a chyfle cyfartal i Ranbarth Dwyrain Cymru. Mae canllawiau oddi wrth y Comisiwn yn pwysleisio pa mor bwysig yw strategaethau integredig ar gyfer datblygiad a newid rhanbarthol i fanteisio i’r eithaf ar effeithiolrwydd yr holl strategaethau rhanbarthol, lleol, cenedlaethol a chymunedol, ac i sicrhau y bydd manteision yn parhau ar ôl oes y Rhaglen. Mae’r adran hon o fewn y ddogfen yn gosod y Rhaglen o fewn polisïau a strategaethau sy’n gweithredu ar gyd-destun Ewropeaidd, cenedlaethol a Chymreig.

Mae canllawiau’r Comisiwn yn pwysleisio bod yn rhaid sicrhau cydlynu gyda gweithrediadau a argymhellir o dan gynlluniau’r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd eraill fel Cynlluniau Cymunedol,* Rhaglen Amcan 3* a’r Cynllun Datblygiad Gwledig*. Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd rhwng y Wladwriaeth sy’n aelod o’r Undeb a’r Comisiwn yngl~n â chynnwys y Cynlluniau hyn. Bydd Dogfen Raglennu Sengl Dwyrain Cymru yn cael ei diweddaru’n barhaus i adlewyrchu datblygiadau o fewn y Cynlluniau hyn ac i sicrhau y gwneir y croes-gyfeirio priodol. Gall cytundeb ar gynnwys y Cynlluniau hyn olygu y bydd yn rhaid ail-bwysleisio rhai cyfeiriadau y rhoddir blaenoriaeth iddynt a gynhwysir o fewn Rhaglen Dwyrain Cymru. Er enghraifft, bydd yn rhaid i’r gweithredu yr ymdrinnir ag ef gan Gynllun Amcan 3 (ESF) a’r rhai yr argymhellir ymdrin â hwy gan elfen botensial ESF yn Rhaglen Dwyrain Cymru gael eu monitro a’u cydlynu’n ofalus i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu ac i gyfiawnhau cynnwys ESF o fewn Rhaglen Dwyrain Cymru. Mae’r un peth yn wir am y Cynllun Datblygiad Gwledig sy’n esblygu. Mae’r gwaith hwn yn parhau.

* Rhaglenni’r Cynlluniau Cymunedol (2000 - 2006) a all effeithio ar Ddwyrain Cymru yw LEADER +, EQUAL, URBAN a INTERREG III.

* Bydd Rhaglen Amcan 3 (2000 - 2006) yn ymdrin â’r UE i gyd, y tu allan i ardaloedd Amcan 1 ac yn defnyddio ESF yn unig. Bydd yr Amcan 3 newydd yn cefnogi gweithgareddau hyfforddi ar gyfer pobl gyflogedig a diwaith, gweithgareddau cysylltiedig fel arweiniad galwedigaethol a chwnsela, ac amrediad o "gymhorthion cyflogaeth", gan gynnwys cynlluniau yn rhoi cymhorthdal tuag at gyflog. Mae Dwyrain Cymru i gyd yn gymwys o dan yr Amcan 3 newydd, ac amcangyfrifir y bydd yr arian ar ei gyfer yn gwneud cyfanswm o tua £82 miliwn.

* Y Cynllun Datblygiad Gwledig (2000 - 2006) yw’r rhaglen genedlaethol sy’n sianelu arian amaethyddol yr UE i weithrediadau yn ymwneud â datblygiad gwledig .

### ( v) **Strategaeth y Rhaglen**

Yn dilyn y *Dadansoddiad o’r Sefyllfa Gyfredol* ac ymarferiad *SWOT* sy’n tynnu sylw at faterion sy’n berthnasol i ardal Rhaglen Dwyrain Cymru ac i gyfiawnhau ymyrraeth gan Gronfa Strwythurol yr UE, mae Strategaeth y Rhaglen yn darparu fframwaith gydlynus ar gyfer gweithredu i oresgyn rhwystrau i gyflawni datblygiad economaidd cymdeithasol ac amgylcheddol cynaladwy a chyfle cyfartal. Oherwydd natur ddaearyddol a sosio-economaidd wahanol yr ardal drefol a gwledig o fewn Dwyrain Cymru, mae strategaeth y rhaglen yn cynnwys yr elfennau trefol a gwledig.

(vi) **Blaenoriaethau a Mesurau**

Mae’r adran hon yn darparu’r fframwaith strategol ar gyfer gweithredu i ymdrin â’r materion a nodwyd ac yr ymdriniwyd â hwy yn y strategaeth. Mae’r Blaenoriaethau yn rhoi manylion yngl~n â’r rhesymeg ar gyfer ymyrraeth y gronfa strwythurol ac yn nodi **amcanion** allweddol. Mae’r Mesurau hefyd yn darparu rhesymeg ac, o dan yr adran *rhychwant,* yn cynnwys argymhellion ar gyfer amrediad o ddulliau o weithredu i gyfrannu at ddatblygiad a chynaladwyedd ardal Rhaglen Dwyrain Cymru yn y dyfodol.

(vii) **Tablau Ariannol**

Bydd tua £50 miliwn ar gael i ardaloedd Amcan 2 Dwyrain Cymru dros gyfnod y rhaglen a thua £18 miliwn ar gyfer ardaloedd Trosiannol Dwyrain Cymru. Mae’n ofynnol i wladwriaethau sy’n aelodau o’r Undeb ddosbarthu’r adnoddau hyn rhwng ardaloedd cymwys ar sail poblogaeth syml fel bod dosbarthiad teg per capita. Argymhella Partneriaeth Dwyrain Cymru y dylid cymhwyso’r un egwyddor at ddosbarthu adnoddau rhwng ardaloedd trefol a gwledig cymwys Dwyrain Cymru.

Bydd y Ddogfen Raglennu Sengl Derfynol ar gyfer Dwyrain Cymru yn cynnwys tablau ariannol sy’n rhannu’r arian hyn yn nhermau arian rhwng Blaenoriaethau’r Rhaglen.

(viii) **Gweithredu**

Mae’r adran hon yn rhoi manylion am y dulliau gweithredu ar gyfer cyflwyno cronfeydd strwythurol yr UE o fewn Dwyrain Cymru. Mae’n debyg y bydd y drefn a fabwysiadir yn un y gellir ei chymhwyso drwy Gymru gyfan. Mae trafodaethau yn mynd ymlaen ar hyn o bryd rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’r Comisiwn yn hyn o beth, a bydd y canlyniad yn rhoi gwybodaeth ar gyfer yr adran hon.

***Rhaid sylweddoli nad yw’r holl faterion sy’n cael eu nodi gan y dadansoddiad SWOT, na’r holl amcanion y gellir eu cynnwys o fewn y strategaethau yn rhai y gellir ymdrin â hwy gan rychwant y Mesurau o fewn Rhaglen Dwyrain Cymru. Gall y Rhaglen wneud dim ond cefnogi gweithrediadau sy’n gymwys am gefnogaeth y Gronfa Strwythurol o dan ERDF ac ESF.***

# Adran 2 Pwrpas Ymgynghori

## 2.1 Dogfen Ymgynghori

**NID** yw’r ddogfen ymgynghori hon, a baratowyd gan Bartneriaeth Dwyrain Cymru yn ddrafft o Ddogfen Raglennu Sengl Amcan 2 a Throsiannol Dwyrain Cymru a gyflwynir i’r Comisiwn Ewropeaidd yng nghanol Ebrill. Gwnaed llawer o waith gan y Bartneriaeth wrth baratoi’r Ddogfen Raglennu Sengl derfynol, ac mae’r ymgynghori hwn yn elfen hanfodol o’r broses barhaus hon.

Yn dilyn *Dadansoddiad o'r Sefyllfa Gyfredol* a'r ymarferiad *SWOT* , nododd y Bartneriaeth nifer o faterion allweddol i ymdrin â hwy gan Raglen Dwyrain Cymru. Creda Partneriaeth Dwyrain Cymru y bydd ymdrin â'r materion hyn yn cyfrannu at adfywhau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cynaladwy economi Dwyrain Cymru.

**Prif bwrpas y Ddogfen Ymgynghori hon yw cynnig y fframwaith strategol a ddyfeisiwyd i adfywhau'r ardal i ymgynghori yn ei chylch, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y Themâu, Strategaeth y Rhaglen a'r pedwar maes Blaenoriaeth arfaethedig ar gyfer ymyrraeth:**

1. **Natur Gystadleuol Busnes a Menter**
2. **Adfywhau'r Economi Amaethyddol**
3. **Adfywhau Cymunedau Trefol**
4. **Ymdrin â'r Ffaith fod Ardaloedd Gwledig ar y Cyrion a Datblygu Cymunedau**

## 2.2 Y Broses Ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn hanfodol i ddatblygu a ffurfio Rhaglen sy'n berthnasol ac yn hygyrch i'r anghenion a'r cyfleoedd a geir yn rhanbarth Dwyrain Cymru. I gynorthwyo'r broses Ymgynghori, amgaeir Holiadur Ymgynghori cynhwysfawr gyda'r ddogfen hon [holiadur i ddilyn]. Cyn gynted ag y bydd wedi ei gwblhau, gellir anfon yr holiaduron hyn neu eu e-bostio at Adran Ysgrifenyddol Partneriaeth Dwyrain Cymru yng Nghyngor Sir Powys.

Rhaid cyflwyno ymatebion i argymhellion Partneriaeth Dwyrain Cymru i'r Adran Ysgrifenyddol **yn ddim hwyrach na 17 Mawrth 2000** . Yn ystod y cyfnod hwn bydd y ddogfen ymgynghori yn cael ei thrafod gan Bwyllgor Datblygiad Economaidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn mynd drwy sesiwn lawn yn gynnar ym mis Ebrill 2000.

Ar ôl diwygio a chynnwys sylwadau a dderbyniwyd o'r broses ymgynghori hon, bydd Dogfen Raglennu Sengl Amcan 2 a Throsiannol yn cael ei chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 11 Ebrill 2000. Oherwydd yr amserlen dynn hon ni fydd yn bosib rhoi ystyriaeth i sylwadau a dderbynnir ar ôl dyddiad cau'r ymgynghori.

## 2.3 Partneriaeth Dwyrain Cymru

Datblygwyd Dogfen Ymgynghori Amcan 2 a Throsiannol Dwyrain Cymru gan Bartneriaeth Dwyrain Cymru, partneriaeth ar draws llu o sectorau sy'n cynnwys dros 65 o gyrff ac asiantaethau sy'n ymdrin ag ardal NUTS II * Dwyrain Cymru. Ceir rhestr lawn o'r aelodaeth yn Atodiad A.

* NUTS = Nomenclature of Units of Territorial Statistics, system o is-rannu tiriogaeth gwladwriaethau sy'n aelodau o'r UE. Mae Cymru yn ardal ar lefel NUTS I. Mae Dwyrain Cymru, ardal NUTS lefel II yn cynnwys saith ardal sirol/bwrdeistrefi sirol Caerdydd, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Bro Morgannwg a Wrecsam.

Cynhaliodd Partneriaeth Dwyrain Cymru ei chyfarfod cyntaf ar 29 Hydref, 1998. Yn y cyfarfod mabwysiadwyd yr Amodau Gorchwyl a lluniwyd cytundeb i ymgymryd â Gwerthusiad Rhanbarthol ac yna i argymell blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer cefnogaeth yr UE yn y dyfodol.

Oherwydd y gwrthgyferbyniad amlwg rhwng yr ardaloedd cwbl wahanol o fewn Dwyrain Cymru, sefydlwyd dau Weithgor - un i ymdrin ag ardaloedd Trefol o fewn Dwyrain Cymru, a'r llall i ymdrin ag ardaloedd Gwledig Dwyrain Cymru. Sefydlwyd Gr@p Craidd i gydlynu ac integreiddio gwaith y ddau weithgor arall, yn ogystal ag i fod yn fan cyswllt gyda Phartneriaeth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

***Mae Partneriaeth Dwyrain Cymru yn croesawu pob sylw ac awgrym yngl~n â'r Ddogfen Ymgynghori hon, ac wedi darparu Holiadur i Ymateb i'r Ymgynghoriad i chi ei lenwi a'i ddychwelyd i'r cyfeiriad canlynol:***

***Adran Ysgrifenyddol Partneriaeth Dwyrain Cymru***
***Uned Ewropeaidd***
***Cyngor Sir Powys***
***Swyddfeydd St. John***
***Llandrindod***
***Powys***
***LD1 5ES***

***Ffôn: (01597) 827580***
***Ffacs: (01597) 827574***

***E-bost: european.unit@powys.gov.uk***

Pe bai gennych ymholiad yngl~n ag agwedd arbennig o'r ddogfen hon cysylltwch os gwelwch yn dda â:

| **Gwledig:** | **Trefol:** |
| --- | --- |
| | |

| | |
|---|---|
| Clare Owen Evans Swyddog Ewropeaidd<br>Adran Cynllunio, Datblygiad Economaidd ac Adfywhau<br>Cyngor Sir Powys<br>Swyddfeydd St. Ioan<br>Llandrindod<br>Powys LD1 5ES | Marcella Maxwell<br>Rheolydd Gweithredol Datblygu Busnes a Materion Ewropeaidd<br>Cyngor Sir Caerdydd<br>Glanfa'r Iwerydd<br>Caerdydd<br>CF10 4UW |
| Ffôn: (01597).827584<br>E-bost: clare@powys.gov.uk | Ffôn: (02920) 872650 E-bostm.<br>maxwell@cardiff.gov.uk |

**Noder: Dylid anfon pob ymateb ffurfiol at Adran Ysgrifenyddol Partneriaeth Dwyrain Cymru** .

## Adran 3 Gweledigaeth y Rhaglen

3.1 Bwriad cronfeydd strwythurol y G.E. sy'n cael eu cyflwyno drwy Raglen Amcan 2 a'r Rhaglen Drosiannol yw lleihau'r gwahaniaethau economaidd sydd o fewn rhanbarth Dwyrain Cymru a byddant yn gwneud cyfraniad hanfodol tuag at ddatblygu economi cynaladwy, gytbwys, ffyniannus a blaengar. Bydd y Rhaglen yn gwneud y gorau o'r cyfle a gynigir gan statws Amcan 2 a statws Trosiannol i sicrhau gwelliannau pellgyrhaeddol, cydlynol a pharhaus yn adfywiad economaidd yr ardaloedd cymwys yn Nwyrain Cymru.

3.2 Mae strategaeth y Rhaglen yn cael ei sefydlu a'i llunio gan fframwaith polisi sy'n cynnwys egwyddorion cystadleuaeth, entrepreneuriaeth, cynhwysiant cymdeithasol, cyfartaledd a chynaladwyaeth. Mae yn ymdriniaeth holistaidd, gydlynol a chynhwysfawr sy'n cydnabod tlodi, eithrio cymdeithasol a gweithgaredd economaidd isel fel nodweddion sy'n berthnasol i ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd.

3.3 Mae'r cynigion, a ddatblygwyd mewn partneriaeth, gyda'i gilydd yn dynodi mesurau i ymdrin â'r gwahaniaethau economaidd ar draws yr ardal. Bwriedir i'r gweithgareddau a'r mesurau fod yn gadarn a pharhaol ac yn gynaladwy ar ôl diwedd Rhaglen y Gronfa Strwythurol.

3.4 Mae **chwech prif elfen** i'n gweledigaeth ar gyfer yr ardal:

- **economi o safon uchel, yn creu swyddi, yn flaengar ac yn cael ei gyrru gan wybodaeth;** rhaid i economi'r ardaloedd allu cystadlu ar sail ansawdd, gan wneud y gorau o botensial technolegau newydd i ddatblygu diwydiannau newydd a gwella gallu'r rhai presennol i gystadlu. Rhaid canolbwyntio'n bendant ar ddatblygu mentrau newydd a chefnogi sectorau penodol sy'n tyfu.

- **gweithlu medrus, hyblyg, mentrus;** yn fwy na dim, mae llwyddiant y rhaglen yn dibynnu ar allu'r bobl yn yr ardaloedd i ddatblygu'r sgiliau a'r agweddau angenrheidiol i reoli prosesau newidiadau economaidd ac elwa o'r cynnydd. Yn draddodiadol, mae'r ardaloedd wedi gosod gwerth uchel ar lwyddiant addysgol.
  Mae angen i'r rhaglen ddefnyddio ac adfywio'r traddodiad er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau, hyder ac uchelgais, yn enwedig ymhlith y bobl ifanc.

- **cymunedau bywiog, dyfeisgar a mentrus;** mae'r ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd wedi dioddef nifer o broblemau oherwydd tlodi economaidd. Rhaid i un elfen allweddol yn y rhaglen gynnwys galluogi cymunedau i arwain eu datblygiadau lleol eu hunain ac adeiladu perthynas gyda chyrff eraill i adfywhau eu hardaloedd.

- **cymdeithas gyfartal a chyfrifol sy'n amcanu at gyfle cyfartal i'w holl aelodau i gael mynediad at addysg, hyfforddiant a gwaith;**
  Rhaid i'r rhaglen hybu mynediad cyfartal at addysg, hyfforddiant a gwaith i bawb. Ble bo angen rhaid cymryd mesurau penodol i helpu grwpiau neilltuol, fel pobl gydag anableddau, merched, a lleiafrifoedd ethnig i gael mynediad at wasanaethau yn unol â'u hanghenion penodol.

- **lledaenu ffyniant ar draws pob ardal, trefol a gwledig;**
  yn y rhan fwyaf o'r Gymru wledig ac sy'n cynnal diwydiannau gwledig a delwedd gadarnhaol yr ardal, a delio â'r problemau amgylcheddol sy'n rhwystro datblygiad economaidd a chymunedol yn yr hen ardaloedd diwydiannol yn faterion allweddol.

# Adran 4 Proffil o'r Ardal

## 4.0 Gorolwg

4.1 Mae ardal Drosiannol ac Amcan 2 Dwyrain Cymru wedi cael ei rhannu'n ddwy ran wahanol yn ddaearyddol ac yn economaidd-gymdeithasol; ardal wledig eang yng nghanol a de-ddwyrain y rhanbarth ac ardal drefol yn ne-ddwyrain pell Cymru.

4.2 Tra bod gwahaniaethau penodol o fewn y rhanbarth ceir nodweddion cyffredin yn ogystal, yn enwedig o ran cryfderau/gwendidau, cyfleoedd/bygythiadau ac amcanion. Mae'r dadansoddiad hwn yn crynhoi polisïau cyffredin, camau gweithredu potensial, nodau ac amcanion ar gyfer yr holl ranbarth ond, ble mae hynny'n angenrheidiol ac yn ddymunol, mae'n amlygu elfennau gwledig a threfol ar wahân.

4.3 Mae'r rhan fwyaf o NUTS II Dwyrain Cymru wedi bod yn gymwys ar gyfer cymorth Amcan 2 neu Amcan 5(b) y Gronfa Strwythurol oherwydd dirywiad diwydiannau traddodiadol ac amaethyddiaeth a'r effaith ddifrifol a gafodd hynny ar economi yr ardaloedd hyn.

4.4 Tra bo’r blaenoriaethau economaidd ar gyfer Cymru yn awr yn canolbwyntio ar Orllewin Cymru a’r Dyffrynnoedd, mae problemau economaidd dybryd yn parhau mewn rhannau o ranbarth Dwyrain Cymru. Gwnaed cynnydd sylweddol wrth adfywhau economi’r rhanbarth OND mae llawer o rannau yn cymharu yn anffafriol â rhannau tebyg yn yr ardaloedd Amcan 1 presennol yng Nghymru a Lloegr, heb sôn am yr ardaloedd Amcan 2 presennol.

4.5 Mae tystiolaeth glir o’r materion difrifol sy’n effeithio ar ranbarth Dwyrain Cymru. Er enghraifft, gan ddefnyddio cyfres o ddangosyddion amddifadedd a’u cymhwyso i Wardiau yn Nwyrain Cymru a rhannau o Gernyw, De Swydd Efrog, Glannau Merswy a Gorllewin Cymru/Y Dyffrynnoedd mae’n amlwg, o edrych ar y 5% uchaf o wardiau’r DG (yn nhermau amddifadedd), fod gan Ddwyrain Cymru 9 o Wardiau o’i chymharu â 0 yng Nghernyw, 8 yn Ne Swydd Efrog, 41 ar Lannau Merswy a 10 yng Ngorllewin Cymru/Y Dyffrynnoedd.

4.6 Mae data ar hawlwyr Cymhorthdal Incwm yn ôl Ward ar gyfer Prydain Fawr yn dangos fod 3 Ward yn Ne-ddwyrain Cymru yn y 1% uchaf o holl Wardiau Cymru a Lloegr mewn perthynas â dibyniaeth ar gymhorthdal incwm.

4.7 Tra bo cefn gwlad Dwyrain Cymru yn dibynnu’n llethol ar y sector amaethyddol ar gyfer swyddi, mae’r rhan fwyaf o’r ardal yn cael ei dosbarthu fel Tir o dan Anfantais Difrifol o ran anawsterau wrth ffermio; dyma’r categori tir sydd o dan yr anfantais fwyaf yn y dosbarth Ardaloedd Llai Ffafriol. Mae’n dangos tir diffrwyth gyda photensial cyfyngedig sy’n cynhyrchu elw economaidd sydd gryn dipyn yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol, a phoblogaeth isel neu boblogaeth sy’n lleihau ac sy’n ddibynnol ar amaethyddiaeth.

4.8 Mae cefn gwlad Dwyrain Cymru yn cynnwys rhai o’r wardiau gyda’r boblogaeth deneuaf ym Mhrydain Fawr; mae 66 ward ymhlith y 5% uchaf o'r wardiau teneuaf eu poblogaeth ym Mhrydain Fawr. Mae cyfartaledd cyflogau yn isel iawn dros y rhan fwyaf o Ddwyrain Cymru - ymhlith y rhai isaf yn y DU - ac mae bron bob Ward yng nghefn gwlad Dwyrain Cymru un ai mewn ardal o GDP isel y pen, neu’n ymylu ar ward wledig mewn ardal o’r fath.

4.9 Mae gan fryniau Dwyrain Cymru a’r Lefelau gwastad rhwng Caerdydd a Chasnewydd gyfoeth o fywyd gwyllt sy’n cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau sydd o bwys rhyngwladol. Mae gennym ddyletswydd i warchod rhai o’r ardaloedd a’r rhywogaethau hyn yn unol â Chyfarwyddebau Gwarchod Adar Gwylltion (1979) a Chyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau y GE (1992). Fodd bynnag, mae’r adnoddau hyn yn dirywio oherwydd y patrymau datblygu anghynaladwy presennol, yn enwedig oherwydd llygredd aer a dŵr a dulliau ffermio a datblygu sy’n gynyddol ddwys. Mae’r newidiadau hyn yn tanseilio ffynhonnell bwysig o ffyniant ac mae llygredd yn niweidio iechyd. Drwy warchod bywyd gwyllt a’r tirwedd gwledig byddwn hefyd yn cynnal y prif atyniad ar gyfer twristiaeth a delwedd dda Dwyrain Cymru fydd yn gymorth i ddenu buddsoddiad. Bydd datblygu coedwigaeth gynaladwy ac ychwanegu gwerth at gynnyrch gwledig yn agos at y ffynhonnell yn cyfrannu’n uniongyrchol tuag at fod yn gystadleuol.

# Adran 5 Strategaeth y Rhaglen

5.1 Mae gan Ardal Drosiannol ac Amcan 2 Dwyrain Cymru ddwy ardal ddaearyddol wahanol: ardal wledig eang yng nghanolbarth a de-ddwyrain y rhanbarth ac ardal drefol yn ne Cymru. Mae'r dadansoddiad SWOT trylwyr, tra'n amlygu'r nifer o feysydd cyffredinol o ran cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau, hefyd yn amlygu rhai gwahaniaethau. Felly, mae'n briodol edrych ar y ddwy ardal fel unedau economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â daearyddol, ar wahân.

5.2 Mae nifer o'r materion a amlygir yn y dadansoddiad SWOT, er eu bod yn cychwyn o fannau gwahanol, yn rhannu'r un atebion yn aml. Er enghraifft, mae'r anhawster o gynyddu cyfraddau gweithgaredd, yn enwedig i ferched, yn broblem yn yr ardaloedd gwledig a threfol, gyda'r angen am fwy o ofal ar gyfer dibynyddion a chyfleoedd gwaith a hyfforddiant hyblyg yn amcan cyffredin. Bydd rhai problemau, wrth gwrs, yn gofyn am gymorth a chefnogaeth wedi'i deilwra'n fwy penodol i gymryd natur ac esblygiad gwahanol yr economi gwledig a'r economi trefol i ystyriaeth.

5.3 Mae'r strategaethau trefol a gwledig canlynol yn ymdrin â'r materion perthnasol, y rhai cyffredin a'r rhai penodol, a amlygwyd yn y dadansoddiad SWOT. Gyda'i gilydd maent yn darparu cynlluniau strategol a chyflenwol i adfywhau ac ail-strwythuro economi Dwyrain Cymru dros y saith mlynedd nesaf a thu hwnt.

5.4 Mae'r ddwy strategaeth wedi eu seilio ar gydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r tair egwyddor ganlynol, sydd wrth galon amcanion strategol y rhaglen:

## 1. Cynhwysiant

***Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol***

Mae'r ardaloedd sy'n cael eu targedu gan SPD Dwyrain Cymru yn cael eu nodweddu gan y problemau cydgysylltiol a chylchol a ddaw yn sgîl gweithgaredd economaidd isel, cyfraddau cyflog isel, cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer gwaith a hyfforddiant ac amddifadedd cymdeithasol a thlodi - ac yn aml mae'r rhain yn cael eu gwaethygu gan broblemau cludiant ac ynysigrwydd yng nghefn gwlad.

I gynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd ac i hybu cynhwysiant cymdeithasol bydd y mentrau yn targedu, yn benodol, y grwpiau hynny sydd yn dangos lefelau cyfranogi isel ar hyn o bryd, a byddant yn cynnwys:

- *darparu mesurau cefnogi ar gyfer gofal dibynyddion (ee gofal plant a'r henoed)*
- *hyrwyddo ymarfer sy'n cefnogi'r teulu;*

- *mesurau i leihau'r effaith y mae rhwystrau i fynediad a byw ar ymylon yr ardal yn eu cael;*
- *darparu cefnogaeth ychwanegol i'r sawl sy'n cael eu heithrio oherwydd anabledd, tras ethnig a.y. y.b yn unol â'r polisi Cyfle Cyfartal.*

***Premiwm Gwledig***

Mae trwch isel y boblogaeth yng nghefn gwlad Dwyrain Cymru yn atal cyflawni unrhyw arbedion maint. Mae'r gost o ddarparu a chael mynediad at wasanaethau yn uchel, ac o'r herwydd maent yn brin. Mae cyfleoedd potensial ar gyfer hyfforddiant, gwaith a chyfleoedd cymdeithasol/domestig sylfaenol yn aml yn anaddas neu y tu hwnt i'w cyrraedd ac mae hynny yn gwaethygu eithrio economaidd a chymdeithasol.

*Mae'n rhaid i bob menter gydnabod y rhwystrau sylweddol y mae cludiant, amser a mynediad yn eu hachosi i'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth. Achosir y rhwystrau gan y diffyg cludiant sylfaenol ar lefel yr unigolyn a'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd.*

## 2. Gweithio mewn Partneriaeth

Er mwyn cynhyrchu manteision economaidd mae angen i'r chwaraewyr ym maes adfywhau gofio am gysyniadau cydweithio a symleiddio er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau prin a sicrhau'r ansawdd uchaf wrth gyflwyno gwasanaeth.

*Rhaid i bob sector ac asiantaeth - cyhoeddus, preifat, a gwirfoddol/cymunedol - integreiddio eu hadnoddau a'u dulliau gweithredu yn well er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian.*

## 3. Datblygiad Cynaladwy

Y bwriad yw sicrhau ffyniant tymor hir wedi'i seilio ar ddatblygiad cynaladwy, defnyddio adnoddau naturiol yn effeithiol a chymdeithas deg a chynhwysol. Yng nghyd-destun y rhaglen hon, dyma a olygir gan ddatblygiad cynaladwy:

- Gwella ansawdd bywyd i ni ein hunain a'r cenedlaethau i ddod.
- Gorchfygu eithrio cymdeithasol, adeiladu cymunedau cynaladwy a datblygu'r economi cymdeithasol.
- Atal ac atgyweirio niwed i'r amgylchedd yr ydym yn dibynnu arni am ansawdd ein bywydau a'n economi, yn awr ac yn y dyfodol.
- Manteisio ar y galw am wasanaethau a nwyddau amgylcheddol.

- Bod yn fwy effeithlon wrth ddefnyddio ein hadnoddau a'n hegni naturiol.
- Dulliau newydd o ddiwallu ein hanghenion a datblygu yr economi na fyddant yn tanseilio ein hamgylchedd nac ansawdd ein bywydau.

*Mae ceisio cyflawni'r amcanion hyn mewn modd cydlynol yn golygu bod raid i ni ystyried yr holl amrediad o gostau a buddiannau wrth lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau, gan fabwysiadu agwedd ofalus a thymor hir. Arweinir y strategaeth gan yr amcanion a'r egwyddorion hyn.*

Bydd y rhaglen yn cyflawni'r amcanion hyn drwy:

- fesurau a luniwyd i ddatblygu busnesau, hybu menter ac adfywhau'r economi amaethyddol; yn benodol drwy fabwysiadu ymarfer gwaith mwy effeithlon, technolegau newydd, egni adnewyddadwy a datblygiadau technolegau gwyrdd a thrwy ddatblygu gwasanaethau a nwyddau newydd;
- fuddsoddi mewn pobl, gorchfygu'r ffactor o fod yn ymylol yng nghefn gwlad, adfywhau cymunedau a gorchfygu eithrio; yn benodol, drwy wella mynediad a gwella amgylcheddau a gwasanaethau lleol.
- rheoli cefn gwlad mewn modd cynaladwy drwy ddulliau sy'n cyfrannu tuag at ffyniant economaidd neu'n helpu pobl i'w fwynhau.
- codi ymwybyddiaeth ymgeiswyr ac eraill sy'n rhannu yn y rhaglen, er mwyn cael dealltwriaeth well o egwyddorion, cyfleoedd ac arfau datblygiad cynaladwy.
- gwerthuso cynaladwyaeth cynigion er mwyn hyrwyddo penderfyniadau am gyllid



### 5.4 Meini Prawf Cymhwyster

Mae Ardaloedd Gwledig yn Nwyrain Cymru wedi sicrhau arian Amcan 2 oherwydd meini prawf yn ymwneud â natur amaethyddol, gwasgaredig a gwledig yr ardal, sef:

- cyflogaeth amaethyddol mwy na 10% o'r swyddi cyfan* trwch poblogaeth yn llai na 95 o bobl y km sgwâr* a chyfraddau cyflogaeth yn llai na 81.5%
- wardiau sydd wedi cael eu pennu yn Dir Dan Anfantais Difrifol (SDL)*

- mae oed ffermwyr Powys ar gyfartaledd yn 54 mlwydd oed o'i gymharu â chyfartaledd y G.E. o 38 mlwydd oed. Maent yn boblogaeth sy'n heneiddio.

  * Ym Mhowys mae ffermio yn cynnwys 14% o'r gweithlu gyda bron i 20% o'r holl swyddi yn dibynnu ar amaethyddiaeth [cymharer â Phrydain 2% a'r G.E. 5.5%]

* Ym Mhowys, dim ond 22 o bobl y km sgwâr yw trwch y boblogaeth
* Ym Mhowys mae 96% o'r tir yn cael ei ddosbarthu fel Ardal Llai Ffafriol (LFA) gydag 86% yn dod i gategori gwaethaf yr LFA - Tir o dan Anfantais Difrifol (SDL)

## 5.5 Gwerthusiad Rhanbarthol

Mae'r ffactorau hyn yn cael eu hatgyfnerthu gan wendidau cyflenwol a gafodd eu hadnabod gan y bartneriaeth ac yn cynnwys:

- dibyniaeth uchel ar amaethyddiaeth sy'n sylfaen i'r holl economi lleol. Dyma ddiwydiant sy'n ei chael yn anodd wrth geisio ymateb i'r angen am newidiadau strwythurol a dulliau newydd o weithio; dim ond ychydig o ychwanegu gwerth sydd yn weithredol nac ar gael yn lleol i wella'r sefyllfa.
- seiliau economaidd cul a bregus gyda sectorau cyflogau isel yn flaenllaw a sectorau gwerth uchel yn cael eu tan gynrychioli. Mae'r diffyg cyfleoedd gwaith amgen wedi arwain at gyfradd hunan-gyflogaeth sy'n ddwywaith y gyfradd ar gyfer Prydain gyfan, lefelau uchel o dan-gyflogaeth, cyfraddau isel o weithgareddau economaidd (yn enwedig ymhlith merched) a hunan-gyflogaeth ar dâl isel. Un effaith eglur o hyn yw symudiad yn y boblogaeth - mae pobl ifanc alluog yn symud allan i gael addysg uwch/bellach a chyfleoedd gwaith ac mae'r niferoedd o bobl ifanc cymwys/gyda sgiliau sy'n dychwelyd a'r gwaith ar eu cyfer yn gyfyngedig.
- Mae'r sylfaen busnes presennol yn cael ei nodweddu gan sgiliau busnes a rheoli sydd wedi eu tan-ddatblygu ar y cyfan (wedi'u cysylltu ag ymwybyddiaeth isel o werth buddsoddi mewn hyfforddi sgiliau a'r rhwystrau i fusnesau bach gydag ychydig o weithwyr yn nhermau amser, cost a mynediad), lefelau isel o ymchwil a datblygiad a seiliau gwyddonol a thechnolegol cul.
- Mae datblygiad sgiliau lefel uwch yn cael ei lesteirio gan gyfleusterau Addysg Bellach cyfyngedig a diffyg unrhyw sefydliad Addysg Uwch. Ychydig o gyfleoedd dysgu o bell sydd ar gael, sy'n achosi trafferthion enbyd i lawer o ran cael mynediad i hyfforddiant. Mae'r hyfforddiant sydd ar gael hefyd yn aml yn anaddas ac yn anhyblyg ar gyfer anghenion a gofynion busnesau ac unigolion.
- Gwasgaredig yw'r gwaith o farchnata yr ardal un ai fel ardal dwristiaeth neu fel lleoliad busnes. Mae marchnata a hybu sectorau cyflenwol o fewn yr ardal (e.e. twristiaeth werdd, cynnyrch organig/lleol a llwybrau gwestai a marchnadoedd ffermwyr fel arfau i ychwanegu gwerth a hybu twristiaeth ayyb) wedi cael eu hintegreiddio'n wael.
- Ychydig neu bron ddim cludiant cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer teithio i ac o'r gwaith neu anghenion domestig sylfaenol. Mae hyn yn arwain at gymunedau ynysig, nifer fawr o farchnadoedd llafur bach a chyfleoedd gwael ar gyfer cyfleusterau/cyfleoedd cymdeithasol. Mae hyn yn cael ei waethygu gan drefn telegyfathrebu ddigon sylfaenol dros y rhan fwyaf o'r ardal, sydd yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu potensial y technolegau gwybodaeth a chyfathrebu newydd i orchfygu'r ffactor o fyw ar yr ymylon.

- Yn ogystal, ar gyfer llawer o'r gwasanaethau cyhoeddus mae meini prawf cyllido yn cael eu rheoli gan feini prawf gwerth yr arian /gosod targedau "trefol" sydd, pan gymhwysir hwy i ardaloedd gwledig, yn arwain at anfantais a achoswyd gan fiwrocratiaeth. Un esiampl o hyn yw

sut mae niferoedd rhai a allai fod o dan hyfforddiant mewn ardaloedd gwledig yn aml yn methu cyrraedd y trothwy mympwyol a osodir ar gyfer darparu hyfforddiant.

### 5.6 Amcanion Strategol

Er mwyn delio â'r problemau hyn mae Dwyrain Cymru Wledig angen strategaeth, a phwrpas y prif elfennau yw:

**5.6.1 Datblygu gallu busnesau i fod yn gystadleuol ac yn fentrus;** mae datblygu'r mentrau bach a chanolig (SMEs) presennol yn yr ardal yn hanfodol er mwyn cryfhau'r sylfaen economaidd. O ystyried poblogaeth yr ardal ceir lefelau uchel o weithgaredd ymysg busnesau bychain ond mae angen canolbwyntio cefnogaeth ar wella sgiliau'r rheolwyr a'r gweithlu a darparu cymorth i ymdrechion i gynyddu cynhyrchiant ac ehangu marchnadoedd. Mae angen canolbwyntio'r gefnogaeth ar sectorau a chwmnïau sydd â'r potensial i dyfu a chreu gwaith.

**5.6.2 Adfywhau'r Economi Amaethyddol;** (sy'n cael ei ddiffinio fel y sectorau hynny sydd yn defnyddio ac yn datblygu adnoddau naturiol yr ardal, sef amaethyddiaeth a choedwigaeth); gall gwendidau'r economi amaethyddol sy'n sylfaen i gymaint o'r gweithgaredd economaidd yn yr ardal hefyd dreiddio i sectorau eraill. Mae cymryd camau i ychwanegu gwerth i gynnyrch sylfaenol, i gefnogi arall-gyfeirio i weithgareddau cysylltiedig ac i gynyddu effeithlonrwydd ac ansawdd mewn ymarfer a chynnyrch ffermio yn hanfodol os ydym am sicrhau dyfodol cynaladwy i'r diwydiannau hyn. Byddwn yn annog rheolaeth gynaladwy o'r amgylchedd naturiol er mwyn cynnal yr economi amaethyddol, cynyddu bioamrywiaeth ac adfer tirwedd sydd wedi dadfeilio.

**5.6.3 Brwydro yn erbyn effeithiau ynysigrwydd a byw ar yr ymylon;** Mae byw ar yr ymylon wrth graidd llawer o broblemau economaidd yr ardal. Bydd yn rhaid i'r rhaglen edrych ar wahanol ddulliau o gynyddu mynediad at wasanaethau hanfodol - yn cynnwys cyfleoedd hyfforddiant a gwaith - o hyrwyddo gweithgareddau economaidd amgen ble mae dulliau prif lif yn methu, a chymryd mantais ar y buddiannau a gynigir gan dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Un agwedd allweddol o'r strategaeth fydd galluogi cymunedau i hyrwyddo paratoi a gweithredu mentrau datblygu lleol ac i fod yn bartneriaid cyfartal a gweithredol gyda chyfuniad o gyrff eraill i adfywhau eu hardaloedd.

Bydd raid delio â'r tair elfen hon drwy strategaethau a chamau gweithredol penodol, cydgysylltiol.

Prif nod y camau gweithredol hyn fydd datblygu economi yn nwyrain y Gymru wledig a fydd yn gynaladwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol. Rhaid iddo fod yn abl i gynnal cymunedau presennol a gwarchod a gwella yr amgylchedd o safon uchel sydd i'w weld dros y rhan fwyaf o'r ardal. Mae'r amodau hyn yn golygu bod y gweithgaredd economaidd yn yr ardal yn cael ei anelu at ddiwallu anghenion y cymunedau presennol ac yn briodol ar gyfer yr amgylchedd ble lleolir ef.

### 5.7 Amcanion y Strategaeth

### 5.7.1 Datblygu gallu busnesau i fod yn gystadleuol a mentrus

Bydd y flaenoriaeth hon yn hybu mentrau newydd ac yn cynorthwyo'r cwmnïau bychain presennol sydd â photensial i dyfu i sylweddoli’r potensial hwnnw cyn gynted ag y bo modd er mwyn cryfhau a gwella'r sail cyflogwyr lleol yn ogystal â dod yn gwsmeriaid i gwmnïau eraill yn yr ardal drwy ddatblygiad cadwyni cyflenwi lleol.

Bydd rhwydweithiau cefnogi busnesau yn gallu cymryd camau i arfogi cwmnïau o’r fath i wynebu sialensau cystadleuaeth fyd-eang. Bydd hyn yn cynnwys: gwella eu mynediad at gyllid ar dermau cystadleuol; cael y gorau o’u defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i hybu effeithlonrwydd mewnol, hyfforddiant, marchnata a’r ffaith eu bod wedi’u lleoli’n ymylol; ysgogi mwy o ymchwil a datblygu a gwaith newydd o fewn cwmnïau, a gwella’r mynediad at fentoriaid o’r radd flaenaf.

Byddwn yn dal i gefnogi buddsoddiad at i mewn yn enwedig ble mae prosiectau penodol yn helpu i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer cyflenwyr lleol. Bydd cymorth ar gael hefyd i helpu busnesau i addasu i safonau amgylcheddol newydd ac i hybu a defnyddio technolegau gwyrdd. Bydd busnesau hefyd yn cael eu cefnogi i ddatblygu sgiliau rheolwyr a gweithwyr er mwyn cynyddu cynhyrchiant cwmnïau a photensial enillion unigolion. Yn ogystal, bydd datblygu safleoedd ac adeiladau busnes yn ganolog i gyflawni’r amcan hwn.

Bydd y rhaglen yn darparu cefnogaeth wedi’i dargedu i fusnesau a sectorau gyda photensial ar gyfer datblygiad economaidd yn cynnwys: electroneg, gwasanaethau a chynnyrch amgylcheddol, cynnyrch a chrefftau coedwigaeth, twristiaeth (yn cynnwys twristiaeth werdd), amaethyddiaeth gyda gwerth ychwanegol, prosesu bwyd a marchnata, diwydiannau celf a diwylliant, cynhyrchu a gwasanaethau masnachol.

Bydd gan elfen hon y strategaeth yr amcanion canlynol:

- hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhlith busnesau ac unigolion; cynyddu nifer y cwmnïau newydd sy’n cychwyn ac yn goroesi; cefnogi ehangu a thyfu ymhlith y mentrau bychain a chanolig presennol a rhai newydd;

- gwella gallu cwmnïau presennol i gystadlu, yn enwedig mewn sectorau o dwf potensial, drwy gynyddu cysylltiadau Addysg Bellach/Addysg Uwch/diwydiant, hybu trosglwyddo technoleg ac arloesedd, cefnogi defnydd technolegau modern yn enwedig TGCh;
- hybu defnydd e-fasnach, cefnogi marchnata electronig y sectorau hynny sy’n gallu elwa’n neilltuol o’r Rhyngrwyd, a chefnogi datblygiad safleoedd porthol sy’n gallu rhoi’r amlygrwydd mwyaf i safleoedd gwe Mentrau Bychain a Chanolig;
- datblygu safleoedd, adeiladau a threfniadau cyfathrebu cysylltiedig newydd a rhai wedi’u diweddaru i hyrwyddo twf ac ehangiad busnesau brodorol mewn sectorau o dwf potensial yn yr economi lleol, ynghyd â chynyddu’r potensial i ddenu buddsoddiad ar i mewn;

- hybu’r iaith a’r diwylliant Cymraeg mewn cynnyrch a gwasanaethau, drwy gefnogi datblygiad cynnyrch/gwasanaethau traddodiadol Gymreig ac i greu delwedd ar gyfer cynnyrch/ gwasanaethau Cymraeg fel rhan o becyn marchnata integredig a strategol ar gyfer yr ardal;
- cefnogi busnesau yn yr economi cymdeithasol, yn enwedig y rhai sy’n rhoi cyfleoedd economaidd a gwasanaethau ble mae diffyg/dim darpariaeth o’r sector cyhoeddus na phreifat;
- hybu a datblygu'r diwydiant twristiaeth, gan fanteisio ar sectorau sy’n tyfu o fewn y diwydiant; gwyliau byr, gwyliau "gweithgareddau" a "gwyrdd" (e.e. beicio, cerdded, pysgota, golff, marchogaeth, chwaraeon dŵr), treftadaeth, diwylliant a thwristiaeth gelfyddydol. Bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu gan waith i wella marchnata twristiaeth yr ardal ac i godi safonau ansawdd drwy’r diwydiant twristiaeth cyfan, drwy fabwysiadu ymarfer marchnata strategol integredig a datblygu’r sylfaen sgiliau drwy weithredu’r Strategaeth Hyfforddiant Twristiaeth Genedlaethol;
- cefnogi datblygiad hyfforddiant sgiliau’r gweithlu a’r rheolwyr; sicrhau bod hyfforddiant a rhaglenni cysylltiedig yn darparu sgiliau sy’n berthnasol i swyddi yn yr ardal a’r sectorau gyda’r potensial i dyfu neu feysydd ble mae diffyg sgiliau, yn ogystal â darparu’r gwaith sylfaenol ar gyfer sgiliau cychwyn mentrau.

### 5.7.2Adfywhau’r Economi Amaethyddol

Bydd datblygiad economaidd a hyfywedd barhaus llawer o’r Gymru wledig angen cefnogaeth ar gyfer arall-gyfeirio a moderneiddio diwydiannau traddodiadol, yn enwedig rhai wedi’u seilio ar y tir. Mae’n rhaid i ni hefyd gymryd camau i sicrhau ein bod yn gwarchod ein hamgylchedd sydd o’r safon uchaf drwy gymaint o’r Gymru wledig a hyrwyddo cyflawniad y lefelau uchaf posibl o effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ein hadnoddau naturiol.

Rhaid i weithgareddau economaidd sy’n seiliedig ar y tir gael cefnogaeth wrth iddynt ymdrechu i gyrraedd hyfywedd economaidd ond ni ddylid gwneud hyn oni bai eu bod yn gynaladwy o ran yr amgylchedd hefyd. Bydd y diwydiannau allweddol, amaethyddiaeth a choedwigaeth, ynghyd â’r diwydiant pysgota angen cymorth penodol i sicrhau bod eu datblygiad yn gyson gyda gofynion cynaladwyaeth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Thema bwysig yn y strategaeth yw creu cyfleoedd cyflogaeth newydd yng nghefn gwlad Dwyrain Cymru a gellir eu cyfuno â ffermio rhan amser, i helpu teuluoedd sy’n ffermio i gynnal eu hincwm a chynorthwyo arall-gyfeirio cynaladwy. Bydd yr elfennau hyn yn helpu i gynyddu delwedd y diwydiant i’r bobl ifanc ac yn gostwng y niferoedd sy’n symud allan o gefn gwlad.

Rydym yn ystyried, yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Gwledig (a gyllidwyd drwy Gronfa Gwarant EAGGF) yr achos dros roi cymorth i ffermwyr ifanc sy'n dod i mewn i ffermio i sefydlu eu hunain, er mwyn cynorthwyo i ysgogi syniadau newydd ymysg y boblogaeth amaethyddol.

Mae'r rhan fwyaf o dir amaethyddol y rhanbarth wedi cael ei ddosbarthu fel Ardaloedd Llai Ffafriol a byddant yn parhau i dderbyn cymorth drwy gyllid EAGFF. Bydd y cronfeydd hyn yn cefnogi rhoi grantiau i ffermwyr droi'n organig a mabwysiadu mesurau amaethyddol/amgylcheddol megis Tir Gofal ar sail Cymru-gyfan drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd y rhaglen hefyd yn cefnogi mentrau i gynyddu'r maint o brosesu bwyd a wneir yn y rhanbarth.

Bydd yr amcanion hyn yn cael eu cefnogi gan bolisïau clir o reolaeth cefn gwlad sy'n amcanu at warchod a gwella amgylchedd priodol ar gyfer datblygiad economaidd. Bydd hyn o fudd nid yn unig i ddiwydiannau sy'n seiliedig ar adnoddau ond hefyd yn hybu twristiaeth yn uniongyrchol ac yn gwella delwedd ardaloedd mwyaf gwledig y rhanbarth fel lleoliad busnes.

Bydd elfen hon y strategaeth yn cefnogi adfywiad yr economi gwledig, yn cynorthwyo ei ddatblygiad o'r or-ddibyniaeth bresennol ar gyflogaeth yn y diwydiant amaethyddol sydd yn ddibynnol ar gynhyrchu ac allforio un prif gynnyrch, i sefyllfa sy'n seiliedig ar ddatblygiad cynaladwy gyda gwerth ychwanegol o fewn economi amaethyddol mwy amrywiol gydag llai o arian yn cael ei golli o'r ardal. Yr amcanion a nodir yma yw'r rhai ar gyfer y sector amaethyddol yn Nwyrain Cymru. Bydd elfennau yn cael eu cyllido drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig ac elfennau drwy Amcan 2 a'r Rhaglen Drosiannol. Fodd bynnag, maent yn ffurfio rhan o strategaeth gydlynol sy'n amcanu at:

- ychwanegu gwerth at gynnyrch sylfaenol lleol, o ran cynnyrch amaethyddol a chynnyrch coedwigaeth, drwy ddatblygu'r sectorau amaeth-busnes, prosesu bwyd, meysydd organig a'r sector prosesu coed;
- ymchwil y farchnad a datblygu cynnyrch/prosesau er mwyn cael y gorau o farchnadoedd sefydledig ac i ddarganfod a chael mynediad i farchnadoedd newydd arbenigol e.e. bwyd organig/ bwyd "diogel"/ cynnyrch wedi'i gynhyrchu'n ddyngarol; datblygu'r sector pren caled arbenigol;
- datblygu dulliau gweithio cydweithredol ac effeithlon o brosesu a chynhyrchu er mwyn gwrthsefyll cryfder y gwerthwyr e.e. archfarchnadoedd (bydd angen datblygu cadwyni cyflenwyr coed a bwyd);
- defnyddio delwedd effeithiol ar lefel briodol sy'n rhan o bolisi strategol; gyda 80% o Gymru wedi ei dynodi yn Ardal Llai Ffafriol, mae Dwyrain Cymru eisoes, i bob pwrpas, yn magu wyn "gradd gwarchodaeth" heb fod yn ddwys;
- manteisio ar y cyfle i ddatblygu egni adnewyddadwy ar raddfa briodol, yn cynnwys dŵr, gwynt, haul a biomas;
- datblygu'r sector rheolaeth mewn amaeth-amgylchedd a rheolaeth cefn gwlad.

**5.7.3 Brwydro yn erbyn effeithiau ynysigrwydd a byw ar yr ymylon**

Mae bod ar yr ymylon yn ffactor bwysig yn y diffyg datblygiad economaidd ac eithrio cymdeithasol yn yr ardaloedd gwledig. Mae wedi llesteirio sicrhau cyflawniad arbedion o ran maint i fusnesau'r rhanbarth ac o ran hyfforddi, cludiant ac iechyd. Mae cysylltiadau gwael i mewn ac allan o'r rhanbarth yn llesteirio ymdrechion cwmnïau i ehangu eu marchnadoedd.

Rhaid i bolisïau i frwydro yn erbyn y ffactor ymylol hon ymdrin â'r rhesymau economaidd a chymdeithasol a'u heffeithiau. Rhaid cefnogi cwmnïau yn eu hymdrechion i fasnacha ar draws a thu hwnt i'r rhanbarth er mwyn eu helpu i ddatblygu. Bydd angen gwella cyfleoedd dysgu o bell a'u datblygu er mwyn gwella sgiliau'r rhai sy'n gweithio a helpu'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd ymylol i gaffael y sgiliau i gael mynediad i'r farchnad waith. Bydd gan Fentrau Cymunedol, mewn partneriaeth â sefydliadau cyhoeddus/preifat, rôl bwysig i'w chwarae mewn dod â gwasanaethau i ardaloedd ymylol ac mewn codi lefelau gweithgareddau economaidd mewn ardaloedd gyda marchnadoedd bychain.

Mae strwythur cyfathrebu a chefnogaeth yn elfen hanfodol yn y broses hon. Rhaid gwella trosglwyddiad gwybodaeth a symudoledd o fewn y rhanbarth er mwyn cynyddu mynediad i gyfleoedd dysgu a chyflogaeth yn ogystal ag ehangu marchnadoedd i fentrau o bob math.

Bydd gan elfen hon y strategaeth yr amcanion canlynol:

- cefnogi gwella Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu a'u strwythurau er mwyn sicrhau bod gwasanaeth rhwydwaith modern, fforddiadwy ar gael ym mhob tref farchnad a phentref; hybu'r defnydd o fasnacha electronig (e-fasnach), yn enwedig ar gyfer busnesau bach a micro, sydd ar ei hôl hi o'u cymharu â chwmnïau mwy o ran elwa o'r manteision sydd i'w cael o fabwysiadu technolegau newydd. Cefnogir mentrau gyda mesurau i gynyddu medrusrwydd mewn TGCh, ymwybyddiaeth a mabwysiadu technolegau newydd a sicrhau bod rhwydweithiau cefnogi yn eu lle;
- gostwng colledion economaidd drwy ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol, ymarfer gwaith cydweithredol e.e. rhannu dulliau dosbarthu nwyddau, cymdeithasau prynu/marchnata cydweithredol, cyfeirlyfrau masnacha electronig;
- sicrhau bod mentrau yn cael eu cynllunio a'u datblygu drwy bartneriaethau cytbwys/ cynrychioliadol sy'n cynnwys y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector;
- hwyluso mentrau sy'n magu hunan-gymorth a chynhwysiant mewn cymunedau drwy fesurau i gynyddu gallu cymunedau a'u galluogi i weithredu drostynt eu hunain;
- cefnogi sefydlu cronfeydd gwarant cydfuddiannol ac Undebau Credyd a chynnal a hyrwyddo datblygiad mentrau cymdeithasol a chymunedol;
- rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu o bell a dulliau ymestyn allan, yn cynnwys defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu sy'n hyrwyddo cydweithio (e.e. safleoedd ar y we, hysbysfyrddau, e-bost, cynadledda bwrdd gwaith, cynadledda fideo a ffôn);
- cefnogi gwaith ar gludiant cymunedol cynaladwy er mwyn gostwng eithrio cymdeithasol drwy roi gwell mynediad i gyfleoedd economaidd a chymdeithasol;

- cefnogi gwaith priodol, integredig, cynaladwy a rhyng-foddol ar gyfer teithwyr, ymwelwyr a nwyddau, yn cynnwys integreiddio a hyrwyddo gwybodaeth teithio drwy ddefnyddio gwahanol gyfryngau.

## STRATEGAETH AR GYFER DWYRAIN CYMRU **TREFOL**

### 5.8 <u>Meini Prawf Cymhwyster</u>

Yr ardaloedd yn Nwyrain Cymru Trefol sydd wedi sicrhau Amcan 2 yw'r rhai a oedd yn perthyn i'r 10% o wardiau sy'n dioddef o'r amddifadedd mwyaf ym Mhrydain pan ddefnyddiwyd set o newidynnau y tybiwyd eu bod yn arwyddol o amddifadedd trefol/diwydiannol. Roedd y rhain yn ddangosyddion amddifadedd, tlodi ac eithrio ac yn cynnwys y meini prawf canlynol:

- diweithdra tymor hir
- dibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth
- dwysedd poblogaeth

### 5.9 <u>Gwerthusiad Rhanbarthol</u>

Ychwanegir at y ffactorau hyn gan wendidau cyflenwol a nodwyd gan y bartneriaeth sy'n cynnwys:

- Prinder sgiliau mewn nifer o feysydd galwedigaethol, gan gynnwys Technoleg Gwybodaeth a sgiliau rheoli; lefel isel o sgiliau rheoli uwch a lefel isel o sgiliau rhifedd, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu allweddol mewn rhai meysydd arbennig.
- Lefelau cymharol isel o draddodiad entrepreneuraidd brodorol; lefel cymharol isel o weithgaredd Ymchwil a Datblygu a throsglwyddo technoleg; diffyg diwylliant arloesi, yn arbennig ymysg cwmnïau bychain a chanolig.
- Delwedd ac amgyffred gwael am yr ardal fel cyrchfan i dwristiaid. Mae'r gwaith o farchnata a hyrwyddo sectorau twf potensial y diwydiant twristiaeth e.e. twristiaeth ddiwylliannol, treftadaeth a chelfyddydau, gwyliau byr, gweithgareddau a thwristiaeth werdd ac ati wedi ei integreiddio'n wael ar lefel is-ranbarthol.
- Problemau sosio-economaidd ac eithrio cymdeithasol difrifol, yn arwain at ddisgwyliadau isel a diffyg hunan-barch. Mewn cymunedau sy'n dioddef o amddifadedd ceir crynodiad o iechyd gwael, cartrefi heb neb yn ennill bywoliaeth ynddynt, lleiafrifoedd ethnig, pobl sy'n derbyn budd-dâl anabledd a lefel uchel o gyfranogiad yn yr "economi anffurfiol".

### 5.10 <u>Nodau Strategol</u>

I ymdrin â'r problemau hyn mae ar Ddwyrain Cymru Drefol angen strategaeth, a'r prif elfennau yw:

**5.10.1 Datblygu busnesau cystadleuol a mentrus:** mae datblygu sail o gwmnïau bychain a chanolig modern, cystadleuol ac arloesol yn rhan allweddol o strategaeth economaidd ranbarthol effeithiol ac yn sail hanfodol ar gyfer creu cyfleoedd gwaith newydd. Er mwyn hyrwyddo a chynnal adfywhau economaidd ardaloedd Amcan 2 ac ardaloedd Amcan 2 Trosiannol Dwyrain Cymru Trefol, bydd yn rhaid i'r rhaglen ymdrin â ffyrdd o greu amgylchedd busnes modern, cystadleuol ac arloesol a diwylliant o entrepreneuriaeth. Rhaid canolbwyntio cefnogaeth hefyd ar roi sgiliau i fentrau bychain a chanolig i ymdrin â phrinder sgiliau a galluogi iddynt dyfu. Mae'n rhaid canolbwyntio'r gefnogaeth ar sectorau a chwmnïau gyda photensial i dyfu a chreu gwaith.

**5.10.2 Cyfrannu at adfywhau economaidd cymunedol;** gan ymladd yn erbyn amddifadedd economaidd ac eithrio cymdeithasol a wynebir gan gymunedau sydd o dan anfantais. Er mwyn cwtogi ar wahaniaethau cymdeithasol ac economaidd rhwng cymunedau a symud y rhwystrau i dwf economaidd, mae angen partneriaethau effeithiol cyhoeddus/cymunedol/gwirfoddol/preifat i ddatblygu strategaethau lleol a fydd yn galluogi'r gymuned i ddatblygu atebion cynaladwy i broblemau lleol. Mae angen gwella sgiliau a chymwysterau trigolion lleol ynghyd â'r lefel o gyflogaeth gynaladwy o fewn cymunedau. Bydd yn rhaid i raglen Amcan 2 ar gyfer Dwyrain Cymru Drefol gefnogi cymunedau i ddatblygu eu gallu eu hunain, i nodi atebion i ymdrin â phroblemau lleol a datblygu cynlluniau cymunedol i ymdrin â hwy. Bydd angen cefnogaeth i wella delwedd ac amgylchedd cymunedau, gan wella eu proffil i drigolion a'r gymuned busnes.

Bydd yn rhaid i'r ddau nod hwn gael eu trin gan flaenoriaethau a mesurau penodol a chysylltiedig. Amcan sylfaenol y camau hyn fydd datblygu economi yn Nwyrain Cymru Drefol sy'n gynaladwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Bydd yn rhaid i'r economi allu tyfu ac amrywio, a chynnal a datblygu cymunedau sy'n bodoli'n barod.

## 5.11 Amcanion y Strategaeth

### 5.11.1 Datblygu busnesau cystadleuol a mentrus

Mae diffyg traddodiad mentro yn Nwyrain Cymru Drefol yn gyfyngiad mawr ar ddatblygiad economaidd yr ardal. Mae'n rhaid ymdrin â chyfraddau sefydlu a goroesi isel a gwael mentrau bychain a chanolig er mwyn cynnal datblygiad a thwf mentrau canolig a bychain newydd a brodorol. Un o flaenoriaethau'r rhaglen fydd darparu fframwaith ar gyfer annog entrepreneuriaeth a chefnogaeth wedi ei thargedu ar gyfer busnesau a sectorau gyda photensial i dyfu yn economaidd.

Bydd y rhwydwaith Cyswllt Busnes, i gefnogi'r Rhaglen, yn gallu rhoi cymorth i gryfhau cwmnïau lleol drwy: wella hygyrchedd at fentoriaid busnes, cyngor a chefnogaeth arbenigol; ysgogi mwy o YaD ac arloesedd o fewn cwmnïau; amlhau i'r eithaf eu defnydd o DGCh (ICT) a thechnolegau newydd i hyrwyddo effeithiolrwydd mewnol, gwella cyfleoedd hyfforddi a marchnata; a rhoi gwell cyfle iddynt fanteisio ar gyllid ar delerau cystadleuol.

Cefnogir darparu safleoedd ac adeiladau newydd ac wedi eu huwchraddio, ynghyd â ffyrdd mynediad

cysylltiedig, i hwyluso twf ac ehangiad busnesau brodorol mewn sectorau a allai dyfu o fewn yr economi leol ynghyd â chynyddu'r potensial i ddenu buddsoddiad mewnol newydd.

Ceir lefel isel o fuddsoddiad mewn YaD ac arloesedd yng Nghymru, un o'r ffactorau allweddol y tu ôl i wahaniaethau yn nhwf economaidd cwmnïau o fewn Ewrop. Mae arloesedd ac YaD yn hanfodol ar gyfer cynnal min cystadleuol a diogelu a chreu gwaith, ond mae llawer o gwmnïau, yn arbennig cwmnïau bychan a chanolig, yn brin o'r cyllid a'r arbenigedd i dderbyn arloesedd neu ymchwil a datblygiad. Bydd y rhaglen yn hyrwyddo'r defnydd o arloesedd ac YaD ac yn cefnogi creu busnesau sy'n seiliedig ar dechnoleg yn y sectorau YaD.

Nodir twristiaeth fel un o'r sectorau twf potensial mawr ar gyfer y rhanbarth, ond un sy'n dioddef o nifer o gyfyngiadau yn Nwyrain Cymru Drefol. Rhaid i bolisïau i ymdrin â'r cyfyngiadau hyn a lledaenu manteision twristiaeth drwy gydol yr ardal ymdrin â'r angen am agwedd integredig a strategol at ddatblygu sectorau twf potensial y diwydiant twristiaeth lleol e.e. twristiaeth busnes, twristiaeth ddiwylliannol, treftadaeth a'r celfyddydau, gwyliau byr, twristiaeth gweithgareddau a thwristiaeth 'werdd' ac ati.

Cefnogir busnesau i ddatblygu sgiliau rheolwyr a gweithwyr fel ei gilydd i gynyddu cynhyrchedd a natur gystadleuol y cwmnïau. Bydd angen darparu gweithlu medrus a pharod i addasu i gefnogi creu ac ehangu busnesau yn yr ardal.

Bydd gan elfen hon y strategaeth yr amcanion canlynol:

- hyrwyddo diwylliant o entrepreneuriaeth; cynyddu cyfraddau sefydlu a goroesi cwmnïau newydd; cefnogi twf ac ehangu mentrau bychain a chanolig newydd a rhai sy'n bodoli'n barod;
- gwneud cwmnïau sy'n bodoli'n barod yn fwy cystadleuol, yn arbennig mewn sectorau twf economaidd potensial, drwy fwy o gysylltiadau rhwng Addysg Bellach/Addysg Uwch/diwydiant, hyrwyddo trosglwyddo technoleg ac arloesedd, cefnogi'r defnydd o dechnolegau modern, yn arbennig TGCh;
- datblygu safleoedd newydd ac wedi'u huwchraddio, adeiladau a ffyrdd mynediad cysylltiedig i hwyluso twf ac ehangu busnesau brodorol mewn sectorau twf potensial o fewn yr economi leol, ynghyd â chynyddu'r potensial i ddenu buddsoddiad tuag i mewn newydd;
- hyrwyddo delwedd Dwyrain Cymru Drefol fel rhan o becyn marchnata integredig a strategol ar gyfer yr ardal; hyrwyddo a datblygu'r diwydiant twristiaeth, cefnogi sectorau twf o fewn twristiaeth; codi safonau ansawdd o fewn y diwydiant twristiaeth;
- cefnogi datblygu sgiliau'r gweithlu a hyfforddiant rheolaeth, gan sicrhau bod rhaglenni hyfforddi a rhai cysylltiedig yn darparu medrau sy'n berthnasol i swyddi yn yr ardal a sectorau twf potensial neu feysydd lle ceir prinderau o ran sgiliau.

**5.11.2 Cyfrannu at adfywhau economaidd cymunedol**

Mae adfywhau cymunedau sy'n wynebu amddifadedd economaidd a chymdeithasol yn ganolog i

ddatblygiad economaidd a chymdeithasol ehangach yn Nwyrain Cymru Drefol. Mae gwella'r is-adeiledd cymdeithasol, yr amgylchedd a lefelau gwaith o fewn cymunedau sydd o dan anfantais yn hanfodol i adfywhau cymunedau a gwella ansawdd bywyd i bobl leol. Mae angen partneriaethau effeithiol cyhoeddus/cymunedol/gwirfoddol/preifat i alluogi'r cymunedau eu hunain i chwarae rôl allweddol yn y gwaith o adfywhau eu cymuned. Bydd polisïau sy'n galluogi'r gymuned i ddatblygu strategaethau lleol sy'n nodi anghenion cymunedol ac atebion posib yn creu synnwyr o gyfrifoldeb cymunedol a pherchnogaeth ac yn hyrwyddo cynaladwyedd.

Rhaid i ddatblygiad economaidd yn seiliedig ar y gymuned ymdrin â chynaladwyedd tymor hir cynlluniau drwy sicrhau cyfranogiad gweithredol trigolion lleol yn y gwaith o ddylunio a gweithredu camau unigol. Rhaid i bolisïau felly hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad cymunedol mewn amrywiaeth o ffyrdd a datblygu gallu'r gymuned i weithredu naill ai fel arweinydd neu bartner cyfartal yn y broses o Ddatblygiad Economaidd Cymunedol. Bydd cynhwysiant cymunedol yn cryfhau cydlyniad cymdeithasol ac yn hwyluso cyfranogiad pob gr@p o fewn y gymuned, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r trigolion i gyd.

Mae hygyrchedd i waith, gwasanaethau a chyfleoedd hyfforddi yn ffactor hanfodol i ymladd yn erbyn eithrio cymdeithasol ac economaidd, a bydd yn rhaid i bolisïau ymdrin â materion cludiant cymunedol a chyhoeddus o fewn cymunedau sydd o dan anfantais. Bydd yn rhaid i bolisïau hefyd ymdrin â mynediad at dechnolegau newydd o fewn cymunedau, gan gynnwys Technoleg Gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu.

Mae gwella delwedd ac amgylchedd cymunedau sydd o dan anfantais yn hanfodol i wella balchder y trigolion yn eu cymuned a'i gwneud yn ddeniadol i fuddsoddwyr newydd/busnesau brodorol. Bydd cefnogaeth i Fentrau Cymunedol yn creu cyfleoedd gwaith newydd ac yn cynyddu gweithgaredd economaidd o fewn cymunedau sydd o dan anfantais. Bydd y strategaeth yn hyrwyddo ac yn cefnogi datblygiad asedau sy'n creu refeniw sy'n eiddo i'r gymuned, a fydd yn galluogi trigolion i chwarae rôl ganolog yn y gwaith o adfywhau eu cymuned tra'n gwella cynaladwyedd economaidd tymor hir y gwasanaeth/cyfleuster cymunedol.

Mae'r strategaeth yn cydnabod y sicrheir datblygiad economaidd cynaladwy i gymunedau sydd wedi eu hamddifadu drwy ddatblygu medrau a thalentau pobl leol yn unig. Bydd y rhaglen yn cefnogi nifer o fesurau sy'n ymestyn allan i ddileu rhwystrau i hyfforddiant a sicrhau cyfranogiad gan drigolion lleol mewn gweithgareddau galwedigaethol sy'n gysylltiedig â'u hanghenion a'u dyheadau o ran gwaith. Rhaid i drigolion fod â'r hyder a'r sgiliau angenrheidiol i gystadlu am gyfleoedd gwaith.

Bydd gan elfen hon y strategaeth yr amcanion canlynol:

- cynyddu lefel gwaith cynaladwy drwy gefnogi creu gwasanaethau cymunedol newydd a mentrau cymdeithasol/asedau sy'n perthyn i'r gymuned sy'n creu refeniw;

- ysgogi, sefydlu a chynnal partneriaethau cyhoeddus/ cymunedol/ gwirfoddol/ preifat i ddatblygu

a gweithredu cynlluniau a strategaethau cymunedol;

- hwyluso cynlluniau sy'n hyrwyddo cynhwysiant, hunan-barch a chryfhau gallu cymunedau i helpu eu hunain;
- darparu atebion cynaladwy sy'n ymdrin â phroblemau lleol, gan alluogi'r gymuned i chwarae rôl allweddol yn adfywiad economaidd a chymdeithasol eu cymuned;
- gwella hygyrchedd at waith, gwasanaethau a chyfleoedd hyfforddi drwy well cludiant cyhoeddus, cludiant cymunedol, seiclo a cherdded er mwyn goresgyn eithrio;
- ymladd yn erbyn eithrio drwy well hygyrchedd at dechnolegau newydd, a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- gwella delwedd ac amgylchedd cymunedau lleol gan godi proffil cymunedau a'u gwneud yn ddeniadol i drigolion a chyflogwyr presennol/potensial;
- datblygu sgiliau, hyder ac argoelion gwaith trigolion lleol, gan sicrhau bod holl aelodau'r gymuned yn gallu manteisio ar gyfleoedd gwaith newydd.

# Adran 6 Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

## Blaenoriaeth 1 Natur Gystadleuol Busnes a Menter

### 6.1 Disgrifiad a Rhesymeg

6.1.1 Mae creu amgylchedd busnes cystadleuol a diwylliant o entrepreneuriaeth yn flaenoriaethau canolog a fydd yn cynnal trawsnewid economaidd a chymdeithasol ardaloedd Trefol a Gwledig Amcan 2 ac Ardaloedd Trosiannol Dwyrain Cymru. Mae datblygu sector busnes cystadleuol yn un o brif agweddau unrhyw strategaeth economaidd ranbarthol effeithiol ac yn sail hanfodol ar gyfer creu gwaith.

6.1.2 Amcan y Flaenoriaeth hon yw goresgyn y rhwystrau i ffyniant economaidd a thwf yn y rhanbarth, a chanolbwyntio ymdrechion yn arbennig er mwyn ymdrin â phroblemau y tynnwyd sylw atynt yn y dadansoddiad a'r strategaethau trefol a gwledig.

6.1.3 Bydd y nodau a'r amcanion yn cyflenwi ac yn ychwanegu gwerth at strategaethau sy'n bodoli'n barod, ac yn adeiladu ar y rhaglenni domestig a rhwydweithiau sy'n bodoli ar hyn o bryd, er enghraifft Cyswllt Busnes, y Cynllun Technoleg Rhanbarthol, Cymdeithas Gwybodaeth Cymru, Strategaeth Gwybodaeth Twristiaeth, a'r Strategaeth Twristiaeth Diwylliannol.

6.1.4 Mae'r Flaenoriaeth hon yn adlewyrchu'r rôl y mae'n rhaid i ddatblygiad busnes cynaladwy ei gael o fewn y gwaith o greu swyddi, gwella cystadleuaeth a chynhyrchu mwy o gyfoeth ar draws Dwyrain Cymru. Bwriedir i'r gweithgareddau sy'n cael eu creu a'u hariannu o dan y Flaenoriaeth hon fod yn gadarn er mwyn parhau y tu hwnt i oes rhaglen y Gronfa Strwythurol. Rhoddwyd sylw arbennig hefyd i

wella sgiliau a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, creu diwylliant entrepreneuraidd, hyrwyddo rhwydweithio a rhyngfasnachu a marchnata a hyrwyddo'r ardal a'i chynhyrchion. Bydd cefnogaeth ar gael hefyd i gynorthwyo busnes i addasu i safonau amgylcheddol newydd a defnyddio technoleg werdd. Bydd angen datblygu safleoedd ac adeiladau hefyd ynghyd â gwella lleoedd gwaith presennol i ychwanegu at y rhwydwaith cyflenwi sydd ar gael i fentrau bychain a chanolig sy'n bodoli yn barod ac entrepreneuriaid posibl y dyfodol.

6.1.5 Mae'r flaenoriaeth hon yn gwerthfawrogi'n llawn yr anawsterau ychwanegol a'r gwahaniaethau sy'n gysylltiedig â darparu cyfleoedd mewn ardaloedd trefol a gwledig a bydd yn darparu cefnogaeth i'w goresgyn. Bydd y Flaenoriaeth hefyd yn cydymffurfio â gofynion cyfleoedd cyfartal ac yn darparu cefnogaeth wedi ei theilwrio'n arbennig i grwpiau lle mae ychydig yn manteisio ar wasanaethau'r prif lif gan gynnwys yr anabl, lleiafrifoedd ethnig, siaradwyr Cymraeg a merched.

**6.1.6 Amcanion y rhoddir Blaenoriaeth iddynt**

- cryfhau sail economaidd y rhanbarth a hyrwyddo diwylliant o entrepreneuriaeth a chynyddu goroesiad sefydlu a chyfraddau twf cwmnïau, gan ganolbwyntio ar sectorau twf sy'n bodoli'n barod a rhai potensial.
- gosod diwylliant o arloesedd, YaD a throsglwyddo technoleg i wneud cwmnïau yn fwy cystadleuol.
- cynyddu cynnyrch gwerth ychwanegol y rhanbarth ac annog gweithgareddau allforio.
- hyrwyddo datblygiad cynaladwy a gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol.
- cynorthwyo busnesau i droi ar batrymau datblygiad cynaladwy a mabwysiadu technolegau gwyrdd, er mwyn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd a manteisio ar y galw am nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol.
- cynyddu lledaeniad daearyddol mentrau.
- sicrhau gweithlu medrus a pharod i addasu yn arbennig mewn sectorau twf a meysydd lle ceir prinder sgiliau.

*Cyflawnir yr amcanion drwy'r mesurau canlynol:*

## MESUR 1 - Datblygu Mentrau Bychain a Chanolig Cystadleuol a Chynaladwy

**6.2 Disgrifiad a Rhesymeg**

6.2.1 Mae'r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd Mentrau Bychain a Chanolig, o ran creu ffyniant a chyfleoedd i bobl Cymru. Cefnogaeth busnes yw'r prif beirianwaith ar gyfer cyflwyno gweithgaredd datblygu busnes i fusnes ac mae'n chwarae rôl allweddol yn y gwaith o ysgogi, annog a chefnogi ffurfiad a thwf busnesau, y mae'n rhaid iddynt os ydynt i wella argoelion tymor hir yn sylweddol fod yn fodern, yn arloesol, yn gynaladwy ac yn gystadleuol yn rhyngwladol.

6.2.2 Bydd gan ardal lwyddiannus gyfran uchel o Fentrau Bychain a Chanolig gyda'r gallu a'r adnoddau i ddatblygu cynhyrchion newydd, cymhwyso technoleg newydd, cynnwys arfer gorau o fewn ei gweithgareddau a defnyddio'r rhain i gael mynediad llwyddiannus i farchnadoedd newydd. Mae Mentrau Bychain a Chanolig newydd yn aml yn ganlyniad i entrepreneuriaeth, ond mae statws cymdeithasol yr entrepreneur yn dal yn isel o fewn y rhanbarth. O ganlyniad, mae llawer o unigolion yn amharod i dderbyn hunan-gyflogaeth fel dewis gyrfa. Mae ar Fentrau Bychain a Chanolig angen cefnogaeth wedi ei deilwrio, mynediad at wasanaethau cynnal, cyllid a mentoriaid o'r radd flaenaf i'w galluogi i sylweddoli eu potensial o ran twf, gwella eu heffeithiolrwydd a'u mantais gystadleuol i ddod yn gyflogwyr lleol pwysicach. Bydd gan rwydweithiau cefnogi busnes rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o ddarparu cefnogaeth ar gyfer Mentrau Bychain a Chanolig ac entrepreneuriaid posibl.

6.2.3 Bydd Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth Cymru yn rhoi arweiniad i ddatblygu gweithgareddau integredig penodol i annog newid mewn agweddau tuag at entrepreneuriaeth, yn arbennig yn y sector addysgol.

6.2.4 Gellir cynorthwyo datblygiad economaidd yr ardal hefyd drwy gefnogi datblygiad ac ehangu dolenni cyflenwi drwy weithio ar y cyd a thrwy bartneriaeth drwy weithgareddau fel creu clystyrau, mentrau ar y cyd a phartneriaethau diwydiannol. Bydd hwyluso mwy o fuddsoddiad gan y sector preifat yn hanfodol hefyd.

6.2.5 Bydd gwaith yn cynnwys mesurau i hyrwyddo a chefnogi cyfle cyfartal a mynediad at ddarpariaeth gan y grwpiau hynny sy'n arddangos lefelau isel o ymglymiad mewn gweithgaredd busnes yn draddodiadol.

**6.2.6 Rhychwant**

- cynyddu ymwybyddiaeth, derbyniad ac effeithiolrwydd y gefnogaeth sydd ar gael i Fentrau Bychain a Chanolig ac ymestyn gwerth gwasanaethau drwy ddatblygu a chyflwyno darpariaethau newydd perthnasol i alluogi busnesau i gwrdd ag anghenion y dyfodol, cyfleoedd i allforio a chyflawni Rhagoriaeth mewn Busnes.
- newid agweddau ac annog a chefnogi entrepreneuriaid i ffurfio mentrau newydd yn arbennig mewn sectorau twf posibl o fewn yr economi leol.
- darparu cefnogaeth refeniw cyfalaf i sefydlu mentrau newydd a datblygu busnesau sy'n bodoli, a gwella argaeledd a mynediad at gyllid drwy gyflwyno cynlluniau sy'n ymdrin â'r anawsterau o sicrhau cyllid o'r sector preifat.
- cynyddu datblygiad cwmnïau sy'n ymwneud ag ychwanegu gwerth at nwyddau sylfaenol.
- cynyddu presenoldeb a phwysigrwydd strategol cymharol busnesau yn y sector gwasanaethu a sectorau twf allweddol eraill, yn arbennig y rhai hynny sy'n seiliedig ar wybodaeth ac sydd â photensial ar gyfer twf yn y dyfodol.
- hyrwyddo cyfle cyfartal fel elfen hanfodol o'r holl raglenni cefnogi busnes a hwyluso cefnogaeth wedi ei deilwrio i grwpiau sy'n arddangos lefelau isel o gyfranogiad yng ngwasanaethau'r prif lif gan gynnwys yr anabl, merched, lleiafrifoedd ethnig a siaradwyr Cymraeg.

- cefnogi a darparu cymorth a chyngor i Fentrau Bychain a Chanolig sy'n dymuno allforio neu farchnata eu hunain i farchnadoedd ehangach.
- cynyddu nifer y busnesau sy'n mabwysiadu arfer amgylcheddol gorau, gan gynnwys systemau rheoli amgylcheddol, EAMS ac ISO14001. Mae hyn yn cynnwys cadw gwastraff i isafswm, gwneud defnydd rhesymol o egni ac effeithiolrwydd o ran defnyddio dwr.
- cefnogi busnesau a fydd yn darparu gwasanaethau amgylcheddol i helpu eraill i fabwysiadu arfer amgylcheddol gorau.

## MESUR 2 - Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil a Datblygiad

### 6.3 Disgrifiad a Rhesymeg

6.3.1 Derbynnir arloesedd, a ddiffinnir fel ymelwa'n llwyddiannus ar syniadau newydd, yn eang fel y rheswm allweddol am ffyniant economaidd, ac fe'i hamlygir mewn cynyddu cystadleuaeth, twf, cynyddu cyflogaeth, swyddi o ansawdd gwell a chreu cyfoeth. Daw mantais gystadleuol mewn cwmnïau yn fwyfwy o gynhyrchion newydd, prosesau a gwasanaethau a gyflwynwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae arloesedd felly yn rhan hanfodol o strategaeth i gefnogi datblygiad busnesau brodorol ledled Cymru ac yn arbennig sector gynyddol technoleg/y sector sy'n seiliedig ar wybodaeth.

6.3.2 Yng Nghymru mae'r Cynllun Technoleg Rhanbarthol wedi llwyddo i greu consensws yngl~n â'r materion pwysig o ran arloesedd, technoleg ac YaD ac wedi creu fframwaith ar gyfer datblygu polisi a rhaglenni newydd i gefnogi arloesedd a thwf mewn busnesau.

6.3.3 Amcan y mesur hwn yw gosod y diwydiant arloesedd o fewn cyrff brodorol yn yr ardal fel eu bod mewn gwell sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan gyflwyno technoleg newydd ac arfer gorau o ran rheolaeth. Fel hyn bydd busnesau o'r fath yn dod yn fwy pro-actif ac yn fwy ymosodol o ran datblygu marchnadoedd newydd yn yr economi fyd-eang hynod gystadleuol a thrwy wneud hynny bydd hyn yn hwyluso twf, creu swyddi gyda gwerth ychwanegol uwch ac yn cynhyrchu cyfoeth.

6.3.4 Un o'r materion allweddol ar gyfer yr ardal fydd annog a gwella cysylltiadau rhwng y byd academaidd a busnes a chydweithio rhwng gwahanol gyrff er mwyn datblygu arloesedd ar y cyd o fewn sectorau amlwg.

6.3.5 Bydd gweithgareddau menter YaD sy'n gymorth i arall-gyfeirio'r economi ranbarthol yn cael eu targedu fel ag y bydd rhaglenni gosod gweithwyr a rhaglenni gwaith sy'n annog rhai a allai ddymuno dychwelyd i waith a phobl ifanc i weithio i gwmnïau sy'n seiliedig yn y rhanbarth.

### 6.3.6 Rhychwant

- gosod y diwylliant arloesi o fewn busnesau a phob lefel o'r system addysg drwy godi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd arloesedd o ran gwella ysbryd cystadleuol, cyflogaeth a

thwf.

- creu mwy o fusnesau yn seiliedig ar dechnoleg a mwy o swyddi gyda chyflog da, sy’n gofyn am sgiliau cymhleth, sy’n swyddi o ansawdd gyda gwerth ychwanegol.
- gwella buddsoddiad mewn arloesedd, technoleg newydd ac Y a D, drwy wella’r galw am a chyflenwad ffynonellau cyllid newydd ar gyfer arloesedd.
- cynyddu gallu cwmnïau Dwyrain Cymru i arloesi a chyfradd cyflwyno cynhyrchion a phrosesau newydd drwy wella mynediad at dechnolegau newydd, arfer gorau yngl~n ag arloesedd, cadwyni cyflenwi a chyfleoedd i rwydweithio.
- gwella gallu cwmnïau Cymreig i reoli arloesedd a thechnoleg newydd ac ymdrin â phrinder sgiliau yn effeithiol.
- gwella cysylltiadau rhwng y byd academaidd a diwydiant drwy drosglwyddo technoleg yn well, masnachu YaD academaidd, gwella mynediad i ganolfannau arbenigedd a chyflogi mwy o raddedigion.
- nodi, hyrwyddo a meithrin clystyrau mewn sectorau technoleg penodol, a fydd yn aml wedi eu cysylltu â sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.
- datblygu busnesau sy’n cynnig technolegau gwyrdd a nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol newydd, sy’n rhoi cymorth a chefnogaeth i ddatblygiad cynaladwy .

## MESUR 3 - Cefnogaeth i’r Gymdeithas Wybodaeth

### 6.4 Disgrifiad a Rhesymeg

6.4.1 Diffinnir y Gymdeithas Wybodaeth neu’r "Economi sy’n cael ei gyrru gan Wybodaeth" fel amgylchedd lle mae’r technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sy’n datblygu’n gyflym ac yn cydgyfeirio yn cael eu defnyddio’n effeithiol i sicrhau mwy o ffyniant economaidd a chymdeithasol ac ansawdd bywyd gwell i bawb.

6.4.2 Dangosodd profiad er mwyn sicrhau y manteisir ar y cyfleoedd a bod holl adrannau’r gymuned busnes yn elwa o’r Gymdeithas Wybodaeth, fod yn rhaid cael arweiniad effeithiol, cydlyniad a mynediad at is-adeiledd priodol. Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Prosiect Cymdeithas Gwybodaeth Cymru yn darparu fframwaith strategol ar gyfer defnyddio ac integreiddio’r technolegau yn llwyddiannus, ac yn sail i amcanion a rhychwant y mesur hwn. Mae prosiect Llwybr-Pathway (a ariannwyd gan ERDF o dan Raglen Amcan 5(b) Cymru Wledig 1994-1999) yn enghraifft o ‘arfer gorau’ sy’n dangos yn eglur fanteision gweithredu ar y cyd ar draws rhanbarth rhaglen gyfan yn ogystal â darparu model ymarferol o weithredu ar gyfer y dyfodol. Bydd cynlluniau yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth ac annog cyfranogiad yn arbennig yngl~n â manteision e-fasnach a thele-weithio i unigolion a busnesau er mwyn gwneud eu busnesau yn fwy cystadleuol a gwella eu heffeithlonrwydd mewnol. Mae’n rhaid i’r mesur hwn ymdrin â materion arbennig ‘bychandra graddfa’ i elwa ar e-fasnach. Rhoddir pwyslais ar sicrhau y darperir mynediad i gwmnïau i’r isadeiledd TGCh priodol a’r

rhwydwaith cynnal.

6.4.3 Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cymdeithas Wybodaeth Cymru yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer Cymru fel ‘gwlad a gydnabyddir fel arweinydd byd-eang yn yr Oes Wybodaeth, yn elwa ar Dechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu newydd i wella ffyniant economaidd a chymdeithasol ac i sicrhau gwell ansawdd bywyd i’w holl ddinasyddion’.

**6.4.3 Rhychwant**

- **ysgogi *galw*** drwy annog cyflwyno a defnyddio a throsglwyddo cymwysiadau a thechnolegau yn seiliedig ar y Gymdeithas Wybodaeth yn llwyddiannus sydd

    - yn cynorthwyo pob cwmni i ddatblygu diwylliant, menter ac arloesi cryfach a mwy modern a gwneud busnesau yn fwy cystadleuol o fewn yr economi fyd-eang;

    - annog cymwysiadau fel Tele-gymudo a Thele-weithio a darparu sesiynau blasu TG er mwyn cynorthwyo i ymladd yn erbyn syrthni economaidd a hyrwyddo creu swyddi.

- **ysgogi’r ochr *cyflenwi* drwy**

    - ddatblygu diwydiannau brodorol y Gymdeithas Wybodaeth /diwydiannau cyflenwi aml-gyfryngau;

    - gwella argaeledd a hygyrchedd is-adeiledd TGCh a gwasanaethau cynnal lleol ac annibynnol y Gymdeithas Wybodaeth;

    - datblygu a gwella gallu’r sector cefnogi TGCh bresennol.

- **datblygu’r galluoedd sefydliadol cyffredinol a’r dulliau angenrheidiol i gael y fantais fwyaf o’r cyfleoedd sydd ar gael.**

## MESUR 4 - Datblygu Safleoedd ac Adeiladau wedi eu Gwasanaethu

**6.5 Disgrifiad a Rhesymeg**

6.5.1 Mae angen datblygu safleoedd ac adeiladau wedi eu gwasanaethu, ynghyd â ffyrdd mynediad cysylltiedig, i annog a galluogi mentrau bychain a chanolig i gael eu creu ac i dyfu. Bydd hyn yn cynnwys darparu gweithle arbenigol gyda gwasanaethau wedi eu rheoli a/neu rôl hyfforddi a lleoedd gweithio ar gyfer mentrau gwledig bychain mewn cymunedau pentrefol.

6.5.2 Disgwylir i ddatblygiadau a ariannir o dan y rhaglen gwrdd â safonau amgylcheddol uchel a

chynnwys mynediad llawn i staff a chwsmeriaid anabl. Bydd cefnogaeth ar gael i ddarparu'r cyfleusterau gofal plant cysylltiedig llawn, lle bo hynny'n briodol. Chwilir am fentrau ar y cyd gyda'r sector preifat lle bo hynny'n bosibl, ond bydd ymyrraeth gan y sector cyhoeddus yn parhau i fod yn angenrheidiol mewn llawer ardal.

6.5.3 Yn Nwyrain Cymru Wledig mae darparu tir ar gyfer datblygiad a safleoedd busnes ac adeiladau o ansawdd uchel yn hanfodol i annog sefydlu datblygiad amrediad o fusnesau mwy amrywiol. Mae hyn yn arbennig o wir am gwmnïau mewn rhai o'r diwydiannau mwy newydd a'r sector gwasanaethu sydd â'r potensial i ddod â lefelau incwm uwch i gymunedau gwledig. Mewn ardaloedd gwledig cyfyngir ar dwf hefyd oherwydd yr anhawster o sicrhau cyfranogiad gan y sector preifat mewn prosiectau lle mae'r elw ar fuddsoddiad yn isel. Mae angen arbennig i gynyddu mynediad gan ficro-fentrau i leoedd gwaith mewn ardaloedd trefol a gwledig ar delerau hyblyg.

6.5.4 Yn yr ardal drefol mae'r angen am ymyrraeth yn fwy dwys mewn perthynas â datblygiad diwydiannol ar safleoedd meysydd brown lle mae gofynion am waith adfer a lliniaru yn creu costau ychwanegol annormal. Mae potensial arbennig hefyd o fewn Dwyrain Cymru Drefol i adnewyddu adeiladau sy'n bodoli'n barod a'u gwneud yn fwy hygyrch i gwrdd ag anghenion busnesau a thrwy hynny wella'r amgylchedd adeiledig ac annog buddsoddiad.

**6.5.4 Rhychwant**

- darparu amrediad eang o safleoedd ac adeiladau wedi eu gwasanaethu i gynnal y gwaith o ffurfio a datblygu busnesau lleol a denu buddsoddiad newydd i'r ardal; gyda'r safleoedd a'r adeiladau hyn yn cynnwys y technolegau a'r technegau mwyaf modern a mwyaf cyfeillgar o safbwynt amgylcheddol.
- darparu safleoedd ar gyfer diwydiant a masnach, hwyluso mwy o gyfranogiad gan y sector preifat.
- darparu gweithdai arbenigol lle mae gwasanaethau yn cael eu rhannu a/neu rôl hyfforddi.
- gwella'r amgylchedd drwy adnewyddu lleoedd gwaith presennol a thirlunio cysylltiedig.
- darparu is-adeiledd digonol a mynediad i safleoedd newydd neu rai sy'n bodoli'n barod a fydd yn cwrdd ag anghenion busnesau sy'n ehangu sy'n dymuno cynyddu eu gallu i gynhyrchu.
- darparu cyfleusterau ar gyfer gofal plant mewn safleoedd ac adeiladau newydd neu rai sy'n bodoli'n barod.

## MESUR 5 - Datblygu Adnoddau Dynol i wneud Busnesau yn fwy Cystadleuol

**6.6 Disgrifiad a Rhesymeg**

6.6.1 Bydd y mesur hwn yn cefnogi gweithgaredd ynghylch adnoddau dynol sy'n ffurfio rhan hanfodol o'r mesurau blaenorol yn y flaenoriaeth hon. Mae'r rôl y bydd datblygu adnoddau dynol yn ei chwarae yn y gwaith o gyflawni twf economaidd a sicrhau bod busnes yn gystadleuol yn cael ei chydnabod yn y

Strategaeth Datblygiad Economaidd Cenedlaethol fel un allweddol.

6.6.2 Os yw busnesau yn Nwyrain Cymru i fod yn gystadleuol, mae’n rhaid iddynt ymdrin â’r gofyniad pwysig i gynyddu sgiliau sy’n hanfodol i addasu i farchnadoedd a thechnolegau newydd. Mae sgiliau yn sail i ffyniant busnes. Mae’n holl bwysig, felly, y bodlonir angen cyflogwyr am sgiliau ar hyn o bryd a thros dymor hir drwy hyfforddi priodol a dulliau cyflwyno hyblyg. Bydd sgiliau rheoli yn chwarae rôl bwysig o fewn y mesur hwn. Fe’u defnyddir i greu a gosod o fewn busnesau ‘newid diwylliannol' i gynnwys Ymchwil a Datblygiad fel sail ar gyfer arloesi a thwf busnesau.

6.6.3 Bydd y mesur hwn yn cyfrannu at ddarparu gweithlu wedi’i addysgu a’i hyfforddi yn well, sy’n hanfodol i sylweddoli cyfleoedd busnes a manteision sylweddol y Gymdeithas Wybodaeth.

6.6.4 Nodweddir Dwyrain Cymru gan ddiffyg hyfforddiant hyblyg, hygyrch a fforddiadwy sy’n addas ar gyfer anghenion busnesau a’u gweithlu. Mae’r hyn a ystyrir fel diffyg hyfforddiant priodol, wedi ei gyfuno â methiant i gydnabod manteision gweithlu medrus i fusnes, yn cael ei adlewyrchu mewn llai o duedd gan gyflogwyr ac unigolion i gymryd rhan mewn hyfforddiant.

6.6.5 Wynebir Dwyrain Cymru Drefol gyda’r cylch anfad o economi cul gyda gwerth isel sy’n gofyn am sgiliau isel ac sy’n hawlio cyflogau isel - gan adael ychydig iawn o ysgogiad i ddiweddaru sgiliau. I’r gwrthwyneb, mae diffyg gweithlu hynod fedrus yn gorfodi llawer o fusnesau i dderbyn llwybr o gynhyrchedd isel, lle nad oes gan y gweithwyr y sgiliau sy’n hanfodol ar gyfer addasu i farchnadoedd a thechnolegau newydd .

**6.6.6 Rhychwant**

- annog datblygiad busnesau cynaladwy a chystadleuol mewn sectorau twf allweddol yn Nwyrain Cymru drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi i Fentrau Bychain a Chanolig i gynhyrchu gweithlu sgilgar a pharod i addasu sy’n berthnasol i’w hanghenion cyfredol ac yn y dyfodol.
- cynyddu perfformiad Mentrau Bychain a Chanolig cymwys drwy ddatblygu busnes, rheolaeth a sgiliau HRD perchnogion a rheolwyr.
- hwyluso’r gwaith o greu swyddi gyda gwerth ychwanegol uchel drwy gefnogi busnesau Cymreig i weithredu a rheoli arloesedd a thechnolegau newydd a gwneud dysgu’r gweithlu yn fwy hygyrch, fforddiadwy a pherthnasol drwy well cefnogaeth i Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.
- cyflwyno hyfforddiant i gefnogi’r Gymdeithas Wybodaeth sydd wedi ei deilwrio i anghenion Mentrau Bychain a Chanolig.

## Blaenoriaeth 2 - Adfywhau’r Economi Amaethyddol

**6.7 Disgrifiad a Rhesymeg**

6.7.1 Mae'r economi amaethyddol (a ddiffinnir fel y sectorau hynny sy'n defnyddio ac yn datblygu adnoddau naturiol yr ardal, sef amaethyddiaeth a choedwigaeth) yn ardaloedd Amcan 2 a'r Ardaloedd Trosiannol yn wynebu problemau penodol y tynnir sylw atynt gan yr anawsterau parhaus o fewn y diwydiant amaethyddol. Mae gan yr ardaloedd perthnasol strwythur cymdeithasol ac economaidd gwan ac amlwg yn deillio o or-ddibyniaeth ar sector amaethyddol sydd ar hyn o bryd yn rhoi gwerth ychwanegol isel, natur tymhorol twristiaeth; dwysedd poblogaeth isel; poblogaeth sy'n heneiddio; pobl ifanc medrus yn symud i ffwrdd; gwasanaethau a chyfleusterau annigonol gyda systemau cyfathrebu gwael a phellter mawr o'r marchnadoedd; a diffyg cyfleoedd am swyddi sy'n talu'n dda.

6.7.2 Mae hyfywdra economaidd y nifer o ffermydd teuluol bychain sy'n nodweddu Dwyrain Cymru Wledig yn cael ei danseilio'n gynyddol gan rymoedd economaidd a chymdeithasol sydd y tu hwnt i reolaeth busnesau unigol a mudiadau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys bygythiadau dirywiad tymor hir yn y prisiau am gynnyrch sylfaenol, newidiadau a gyflwynwyd drwy ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, cryfder y bunt, a'r problemau y rhoddwyd llawer o sylw iddynt a achoswyd gan ddeddfwriaeth ddiweddar o fewn y marchnadoedd cig eidion a defaid. Mae pwysau masnachol yn creu tuedd tuag at lai o ffermydd a ffermydd mwy sy'n elwa ar economïau o ran graddfa, a chynnydd mewn daliadau rhan amser llai.

6.7.3 Mae rhwydwaith yr hawliau tramwy cyhoeddus yn cynnig cyfle ar gyfer gweithgareddau hamdden yng nghefn gwlad, sy'n gwella ac yn ymestyn y tymor twristaidd. Rheoli a hyrwyddo rhwydwaith y llwybrau yn effeithiol yw'r adnodd allweddol i gyflawni'r nod hwn. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer gwaith yng nghefn gwlad a chyfranogiad cymunedol, drwy gynlluniau lleol i reoli a hyrwyddo llwybrau lleol, a thrwy gyflogi contractwyr a thirfeddianwyr i weithio ar y llwybrau eu hunain.

6.7.4 Nid yw rhwydwaith bresennol y llwybrau wedi cael adnoddau na defnydd digonol. Ond mae prosiectau unigol wedi dangos y manteision economaidd y gall llwybr wedi ei reoli a'i hyrwyddo'n dda eu cyflwyno. Datgelodd astudiaethau o Lwybr Clawdd Offa 1994/5 y rhoddir £2.1 miliwn i'r economi leol yn flynyddol gan bresenoldeb y llwybr.

6.7.5 Mae rhesymeg y flaenoriaeth yn cynnwys yr angen i ddatblygu a gwarchod adnoddau naturiol mewn dulliau cynaladwy sy'n cyfuno rheolaeth amgylcheddol gydag amaethyddiaeth, coedwigaeth, twristiaeth ac adloniant. Byddai buddsoddi mewn defnydd rhesymol o egni (er enghraifft prosiectau effeithiolrwydd, cadwraeth a phrosiectau Gwres a Phwer Cyfun) a chreu egni adnewyddadwy yn lleol yn dod â manteision economaidd i Ddwyrain Cymru, ac ar yr un pryd yn cynorthwyo i oresgyn tlodi o ran egni a chwtogi ar lygredd. Ymdrinnir â rheoli gwastraff, rheoli dwr gwastraff a rheoli llygredd aer gan y flaenoriaeth hon hefyd.

**6.7.6 Amcanion y rhoddir Blaenoriaeth iddynt**

Cynaladwyedd yw'r cysyniad polisi canolog ar gyfer dyfodol yr economi amaethyddol yn ardal Dwyrain Cymru. Rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiwygio'r economi wledig drwy'r amcanion canlynol:

- annog datblygiad busnesau o fewn y sector amaeth-bwyd gyda'r pwyslais ar ddelwedd o'r ansawdd gorau, a delwedd gadarnhaol o safbwynt amgylcheddol;
- cefnogi brandio cynnyrch (lle bo hynny'n berthnasol) fel rhan o strategaeth holistaidd i farchnata/ hyrwyddo Dwyrain Cymru;
- sicrhau bod mwy o integreiddio fertigol gyda gweithgaredd sy'n ychwanegu gwerth at gynnyrch sylfaenol yn cael ei gyflawni gan fusnesau ar lefel leol;
- cefnogi rheoli'r tir mewn dull amgylcheddol gyfeillgar a datblygu mentrau ac arbenigedd amgylcheddol a rhai yn ymwneud â thechnoleg wyrdd;
- gwneud cymunedau lleol yn fwy ffyniannus drwy arall-gyfeirio a nodi ffynonellau incwm ychwanegol/amgen;
- cefnogi trosi adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio i gael eu defnyddio mewn dulliau cynhyrchiol;
- gwella gwasanaethau a chyfleusterau i ymdrin â'r problemau o fod ar yr ymylon o fewn a rhwng cymunedau gwledig;
- gwella'r modd y mae gwasanaethau cynnal yn cael eu hintegreiddio, gan gynnwys gwelliant mewn datblygu arbenigedd TGCh sydd ar gael drwy grwpiau LEADER, Cyswllt Busnes a Phrosiect Llwybr-Pathway;
- rhoi cyngor a hyfforddiant ac annog datblygiad cyfleoedd gwaith gyda gwerth uwch iddynt yn lleol i wrthsefyll mudo, yn arbennig ymysg yr ifanc;
- ail-strwythuro coedlannau a diwydiant sy'n seiliedig ar goed i gynnwys amrediad ehangach o rywogaethau a datblygu marchnadoedd a chynhyrchion newydd;
- datblygu'r diwydiant twristiaeth, gan wella'r cyfleusterau sydd ar gael;
- datblygu mwy o gysylltiadau, masnachol a chymdeithasol, rhwng busnes sy'n hwyluso economi o ran graddfa, hyfforddiant ar y cyd, dosbarthu, marchnata, cyflwyno gwasanaeth a chyfleoedd gwaith hyblyg;
- datblygu cynlluniau egni cynaladwy lleol sy'n dod â budd i gymunedau ac yn cynorthwyo busnesau a swyddi;
- cadw gwastraff i isafswm a chynyddu ei ail-ddefnydd, ei ail-gylchu ac adfer egni;
- ymdrin â'r ffaith nad oes digon o adnoddau wedi eu gwario ar rwydwaith yr hawliau tramwy yn y gorffennol.

*Cyflawnir yr amcanion hyn drwy'r mesurau canlynol:*

## MESUR 1 - Ychwanegu Gwerth at Gynhyrchion Gwledig

**6.8 Disgrifiad a Rhesymeg**

6.8.1 Mae’r strategaeth gyffredinol yn cydnabod pwysigrwydd cysylltu amaethyddiaeth yn fwy effeithiol â marchnadoedd drwy ddatblygu cynhyrchion o safon, wedi eu brandio, sy’n gallu hawlio’r prisiau uchaf gyda mwy o werth yn cael ei ychwanegu drwy brosesu bwyd. Yr amcan yw cynyddu’r elw a wneir a chreu swyddi ychwanegol yn y sector prosesu.

6.8.2 Mae’r rhan fwyaf o’r da byw a’r cynhyrchion da byw, sef cyfran helaethaf y cynnyrch amaethyddol o’r rhanbarth, yn cael eu hallforio o’r ardal heb brosesu pellach. Mae’r un peth yn wir am gynhyrchion eraill fel coed a physgodfeydd.

6.8.3 Rhaid ymdrin hefyd â datblygu cadwyni cyflenwi gwerth ychwanegol mewn sectorau eraill llai traddodiadol i gwtogi ar y gor-ddibyniaeth ar hyn o bryd ar gynhyrchion cig oen, cig eidion a llaethyddiaeth. Mae’r rhain yn cynnwys garddwriaeth; bwydydd arbenigol; pysgodfeydd mewndirol; cnydau amgen fel llin - cywarch, cnydau protein a chynhyrchion fferyllol; bio-mas gan gynnwys cnydau helyg a chnydau ar gylchdro byr; gwasanaethau amgylcheddol a thechnoleg werdd, coedlannau fel y cyflwynwyd yn Strategaeth Coedlannau Cymru, a datblygu marchnadoedd arbenigol sy’n gysylltiedig â bridiau prin.

**6.8.4 Rhychwant**

- cynyddu’r ymwybyddiaeth ynghylch cyfleoedd i arall-gyfeirio, a nifer y rhai sy’n eu cymryd a’r gefnogaeth a roddir i fusnesau o’r fath, fel ag a roddir i brosesu a marchnata cynhyrchion bwyd;
- cefnogi entrepreneuriaid i ddatblygu cynhyrchion gyda gwerth ychwanegol;
- ymchwilio i farchnadoedd arbenigol posibl ac ymelwa ar gyfleoedd ar hyn o bryd mewn marchnadoedd o’r fath, e.e. cynyddu cynnyrch organig;
- datblygu cadwyni cyflenwi amaeth-bwyd;
- cefnogi datblygu cynhyrchu a phrosesu bwyd;
- manteisio ar gysylltiadau rhwng cynhyrchion gwledig, yr amgylchedd o ansawdd uchel a ffactorau eraill fel twristiaeth, crefftau;
- cefnogi cynlluniau i gynyddu potensial allforio.

## MESUR 2 - Cyngor a chefnogaeth i gynyddu effeithiolrwydd rheolaeth, arall-gyfeirio a dulliau eraill o gynhyrchu incwm

**6.9 Disgrifiad a Rhesymeg**

6.9.1 I’r rhan fwyaf o deuluoedd amaethyddol yn ardal Dwyrain Cymru mae ffermio yn bennaf yn ffordd draddodiadol o fyw. Os ydynt i addasu a bod yn llwyddiannus mae angen iddynt weithredu yn fwy fel busnes a bod ag agwedd llawer mwy mentrus. Mae angen ymdrin â’r materion canlynol:

- gor-ddibyniaeth ar ddulliau a chynhyrchion ffermio traddodiadol;
- diffyg sgiliau TG a sgiliau rheoli busnes;
- ymwybyddiaeth wael yngl~n â chyfleoedd i arall-gyfeirio a chyfleoedd i greu incwm arall;
- diffyg gwybodaeth yngl~n â defnyddio a rheoli’r amgylchedd naturiol mewn dull cynaladwy;
- angen integreiddio creu a datblygu busnesau ar draws y sectorau busnes;
- lefelau isel o entrepreneuriaeth.

**6.9.2 Rhychwant**

- cynyddu ymwybyddiaeth, derbyniad ac effeithiolrwydd y gefnogaeth a’r cyngor sydd ar gael i fusnesau;
- datblygu sgiliau busnes a TG i reoli a datblygu busnesau ffermio yn llwyddiannus ac i arall-gyfeirio;
- cynorthwyo i fabwysiadu dulliau arfer gorau gyda thechnegau sy’n sensitif i’r amgylchedd; gan gynghori yngl~n â rheoli tir; dulliau cynhyrchu organig sy’n gyfeillgar i’r amgylchedd;
- newid agweddau i annog ffermwyr i gymryd penderfyniadau doeth yngl~n â’u dyfodol ac olyniaeth y busnes; arall-gyfeirio a chyfleoedd gyrfa sydd ar gael iddynt drwy roi cyngor ynghylch olyniaeth mewn busnes a dewisiadau gyrfa i aelodau’r teulu;
- sefydlu rhwydweithiau a chwmnïau cydweithredol i annog agwedd integredig at ddatblygu cynhyrchion a marchnadoedd newydd;
- gwella cyfleoedd ar gyfer arall-gyfeirio mewn twristiaeth, coedwigaeth a gwasanaethau amgylcheddol, egni adnewyddadwy a thechnoleg wyrdd;
- ymchwilio a datblygu prosiectau peilot a phrosiectau arddangos wedi eu hanelu at arall-gyfeirio mentrau amaethyddol i gynhyrchu cnydau a chynhyrchion amgen;
- datblygu defnydd effeithiol o adnoddau (fel d@r ac egni) gan gynnwys hyrwyddo Côdau Arfer Amaethyddol Da, e.e. cefnogaeth i warchod/gwella adnoddau naturiol gyda’r amcan o nodi marchnadoedd cynaladwy yn y dyfodol;
- cefnogi’r gwaith o drosi adeiladau gwag i ddefnyddiau cynhyrchiol.

## MESUR 3 - Defnydd cynaladwy ac effeithiol o adnoddau naturiol

**6.10 Disgrifiad a Rhesymeg**

6.10.1 Bydd y mesur hwn yn datblygu ac yn gwarchod adnoddau naturiol i gyfuno rheolaeth amgylcheddol gyda mentrau mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a thwristiaeth.

6.10.2 Mae coedwigaeth o dan bwysau economaidd difrifol gyda’i ddyfodol yn gysylltiedig â phrisiau’r byd. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae prisiau coed wedi gostwng dros 30% ac maent yn annhebyg o gael eu hadfer yn y tymor byr. Mae hyn wedi rhoi pwysau economaidd ar bob rhan o’r diwydiant.

6.10.3 Mae cynhyrchu egni hefyd yn ffactor economaidd bwysig o’i ran ei hun, ond mae’r rhan fwyaf ar hyn o bryd yn cael ei gynhyrchu y tu allan i ardal rhaglen Dwyrain Cymru. Byddai buddsoddi mewn defnydd rhesymegol o egni a chynhyrchu egni adnewyddadwy lleol yn dod â manteision economaidd ac amgylcheddol i’r ardal.

6.10.4 Gall rheoliadau amgylcheddol sy’n llywio gwaredu gwastraff ac arllwys llygrwyr i’r awyr ac i’r aer greu rhwystrau i ddatblygiad. Bydd camau i gwtogi ar wastraff drwy ail-ddefnyddio, ail-gylchu a chynhyrchu egni ohono yn cynorthwyo i gwtogi’r angen am gladdu gwastraff a darparu cyfleoedd busnes posibl yn y dyfodol.

6.10.5 Mae rhwydwaith yr hawliau tramwy gwledig yn adnodd hanesyddol, sy’n caniatáu i bobl fwynhau cefn gwlad yn dawel wrth gerdded, ar gefn ceffyl neu ar feic. Mae rhwydwaith o Hawliau Tramwy wedi ei rheoli a’i hyrwyddo yn dda yn cynnig cyfleoedd sylweddol i economïau lleol drwy ychwanegu at ac ymestyn y tymor twristiaeth; a hefyd drwy gyflogi tirfeddianwyr lleol yn uniongyrchol i’r gwaith o reoli rhwydweithiau’r llwybrau. Amcangyfrifir y ceir tua 70 miliwn o ymweliadau dydd i Gymru i bwrpas hamdden, sy’n cynrychioli gwariant o £0.3 biliwn. O blith yr ymweliadau hyn, mae traean ohonynt ar gyfer cerdded, gyda rhwydwaith yr hawliau tramwy yn rhoi cyfleoedd iddynt wneud hynny.

**6.10.6 Rhychwant**

- datblygu coedlannau fferm sydd wedi eu hesgeuluso yn arbennig mewn pren caled, datblygu gwaith Coed Cymru a hyrwyddo rheoli coedlannau yn gynaladwy ynghyd â busnesau ag iddynt werth ychwanegol a leolir ger ardaloedd gwledig;
- gwella’r isadeiledd ar gyfer cael mynediad at gynhyrchion o goedlannau;
- datblygu ac ehangu’r sector pren caled yn bennaf ond hefyd y sector pren meddal, gan gynnwys, lle bo’n briodol, plannu coedlannau newydd sy’n gydnaws â’r amgylchedd ac sy’n cefnogi’r economi wledig ac yn darparu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn y dyfodol;
- datblygu cadwyni cyflenwi a chefnogi cydweithio rhwng busnesau sy’n cynhyrchu nwyddau cyflenwol;
- cynnal a gwella bywyd gwyllt a chynefinoedd gyda blaenoriaethau sy’n cael eu llywio gan gynlluniau gweithredu bio-amrywiaeth lleol a rhai y DG;
- datblygu cynlluniau egni cynaladwy lleol sy’n dod â budd i gymunedau ac yn helpu i ddatblygu busnesau a swyddi;
- gwella hygyrchedd a chyfleusterau ar gyfer adloniant cynaladwy a thrwy hynny wella amgylcheddau byw a chefnogi twristiaeth;
- datblygu cynlluniau marchnata a marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch coedlannau, yn arbennig ychwanegu gwerth cynaladwy at gynhyrchion drwy brosesu lleol a brandio priodol;
- cefnogi cynlluniau newydd a rhai sy’n bodoli’n barod i gynhyrchu egni adnewyddadwy, gwasanaethau amgylcheddol a mentrau technoleg gwyrdd a chanolfannau rhagoriaeth; datblygu coed a gweddillion coed ar gyfer egni adnewyddadwy; cadw gwastraff i isafswm a chynlluniau a mentrau ailgylchu;

- hyrwyddo cynlluniau twristiaeth werdd, fel datblygu llwybrau a chysylltiadau â llwybrau pellter hir sy'n bodoli'n barod;
- ymchwilio i gyfleoedd i sicrhau bod cymunedau lleol yn cyfranogi mewn cynlluniau rheoli cynaladwy a thymor hir a hyrwyddo rhwydweithiau hawliau tramwy;
- datblygu'r cysylltiadau ar draws amaethyddiaeth, cadwraeth/yr amgylchedd, twristiaeth, cynhyrchu a'r tirlun.

# Blaenoriaeth 3 Adfywhau cymunedol trefol

### 6.11 Disgrifiad a Rhesymeg

6.11.1 Mae adfywhau economaidd cymunedol yn ganolog i ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd ehangach Dwyrain Cymru Drefol. Mae gwella bywiogrwydd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau sydd o dan anfantais yn rhan hanfodol o wella ansawdd bywyd i bobl leol a chreu cymunedau lle mae pobl am fyw a gweithio ynddynt.

6.11.2 Wrth galon yr adfywhau rhaid cael cyfranogiad gweithredol pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau hyn. Rhaid i drigolion a busnesau lleol fod â rôl allweddol mewn unrhyw broses o adfywhau sy'n amcanu at godi lefel cyflogaeth cynaladwy, gwella mynediad at gyfleoedd a manteision economaidd, creu amgylchedd dymunol a diogel a hwyluso cynlluniau sy'n galluogi'r gymuned i ddarparu atebion lleol sy'n ymdrin â phroblemau lleol. Cyfranogiad pob grwp o fewn y gymuned sy'n cynhyrchu manteision sylfaenol a chynaladwy a gall hyn ddod â newid cadarnhaol. Gall gryfhau cydlyniad cymdeithasol a datblygu rhwydweithiau cymunedol; datblygu gallu cymuned i fod yn fentrus, i ddod o hyd i atebion lleol i anghenion a materion lleol ac addasu i newid; gwella amgyffred ynghylch lle mae pobl yn byw; a datblygu syniad o berthyn ac ymglymiad.

6.11.3 Bydd y flaenoriaeth hon yn creu adfywhad economaidd cymunedol drwy'r canlynol:

- datblygu gallu trigolion a grwpiau, a'u gallu i chwarae rôl actif yn eu cymuned;
- cefnogaeth i gynlluniau o dan arweiniad y gymuned sy'n ceisio galluogi pobl leol i ddarparu atebion cynaladwy sy'n ymdrin â phroblemau lleol;
- cefnogi datblygiad yr economi gymdeithasol, gan greu cyfleoedd gwaith lleol a chyfrannu at dwf economaidd;
- adeiladu rhwydweithiau actif sy'n cefnogi grwpiau i gymryd rhan yn y broses gynllunio, penderfynu a gweithredu;
- galluogi asiantaethau i weithio mewn partneriaeth mewn ffyrdd newydd a fydd yn rhoi gallu gwirioneddol i gymunedau;
- cynlluniau cymunedol sy'n gwella ffyniant economaidd, diwylliant, amgylchedd ac is-adeiledd cymdeithasol a gwasanaethau'r ardal.
- targedu camau penodol i ymdrin ag eithriad cymdeithasol drwy sicrhau cyfranogiad grwpiau lleiafrifol yn y broses adfywhau a chreu cynlluniau a fydd yn gwella eu gobeithion o ran

hyfforddiant a gwaith.

6.11.4 Rhaid i weithgareddau adfywhau cymunedol ddangos bod pob adran a diwylliant o fewn y gymuned yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith cynllunio a'r gwaith o lunio penderfyniadau gan sicrhau bod y rhaglen yn tynnu ar yr amrediad ehangaf o arbenigedd a phrofiad i gwrdd ag amrywiaeth angen. Rhaid i bob prosiect nodi sut maent yn ymdrin â chynaladwyedd a mynediad cyfartal a chyfle cyfartal i holl aelodau'r gymuned.

6.11.5 Mewn llawer achos bydd cynlluniau adfywhau hefyd yn cynnwys adfywhau ffisegol i wella ffabrig ardal, gan godi delwedd cymunedau a'u gwneud yn fwy deniadol i drigolion a chyflogwyr presennol/potensial. Bydd polisïau yn hyrwyddo ac yn cynnal cynhwysiant cymunedol drwy sicrhau cyfranogiad gan drigolion, busnesau, grwpiau lleol ac asiantaethau yn y gwaith o gynllunio a dylunio strategaethau lleol sy'n nodi anghenion cymunedol ac atebion posibl. Bydd mesurau ymestyn allan yn ceisio chwalu'r rhwystrau ac yn annog grwpiau sydd ar yr ymylon i fod yn rhan o fywyd cymunedol.

6.11.6 Drwy ardaloedd trefol a diwydiannol Dwyrain Cymru Drefol ceir ardaloedd sylweddol a mannau penodol o amddifadedd, ac mae rhai teuluoedd a chymunedau hyd yn oed yn fwy ar yr ymylon oherwydd eu diwylliant penodol neu eu tarddiad ethnig. Mae'n bwysig fod strategaethau yn cael eu datblygu sy'n canolbwyntio'n glir ar anghenion arbennig yr unigolion a'r teuluoedd yn y grwpiau a'r mannau yr effeithir arnynt fwyaf. Bydd y rhain yn cynnwys merched (rhieni ar eu pennau eu hunain fel arfer, a'u plant, neu wragedd h~n), pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, pobl sâl dros dymor hir, pobl gydag anableddau a phobl ifanc.

6.11.7 Er mwyn cwtogi ar wahaniaethau cymdeithasol ac economaidd rhwng cymunedau a symud y rhwystrau strwythurol i dwf economaidd, mae angen partneriaethau cyhoeddus/ cymunedol/ gwirfoddol/ preifat effeithiol i alluogi'r gymuned i ddatblygu strategaethau lleol.

6.11.8 Mae angen gwella sgiliau trigolion lleol i gefnogi adfywhau economaidd cymunedol ynghyd â gwella lefel y gwaith cynaladwy o fewn cymunedau. Bydd cefnogaeth ar gyfer yr economi gymdeithasol, cyfrannwr cynyddol at ddatblygiad economaidd, yn cyfuno amcanion cymdeithasol a moesol gyda gweithgareddau economaidd. Bydd yn rhaid i raglen Amcan 2 ar gyfer Dwyrain Cymru Drefol gefnogi cymunedau i ddatblygu eu galluoedd eu hunain, i nodi atebion i ymdrin â problemau lleol a datblygu cynlluniau cymunedol i ymdrin â hwy. Bydd angen cefnogaeth i wella delwedd ac amgylchedd cymunedau, gan wella eu proffil ar gyfer trigolion a'r gymuned busnes.

**6.11.9 Amcanion y rhoddir Blaenoriaeth iddynt**

- cefnogi'r gwaith o greu gwasanaethau cymunedol newydd a mentrau cymdeithasol/asedau sy'n creu refeniw sy'n perthyn i'r gymuned a thrwy hynny gynyddu lefel cyflogaeth gynaladwy;
- ysgogi, sefydlu a chynnal partneriaethau cyhoeddus/ cymunedol/ gwirfoddol/ preifat i ddatblygu a gweithredu cynlluniau a strategaethau cymunedol;
- hwyluso cynlluniau sy'n hybu cynhwysiant, hunan barch ac yn cryfhau gallu cymunedau i helpu

eu hunain;

- darparu atebion cynaladwy sy’n ymdrin â phroblemau lleol, gan alluogi’r gymuned i chwarae rôl allweddol yn adfywhad economaidd a chymdeithasol eu cymuned;
- gwella hygyrchedd at waith, gwasanaethau a chyfleoedd hyfforddi drwy wella cludiant cyhoeddus, cludiant cymunedol, seiclo a cherdded er mwyn goresgyn eithrio;
- ymladd yn erbyn eithrio drwy well hygyrchedd at dechnolegau newydd, Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- gwella delwedd ac amgylchedd cymunedau lleol, gan godi proffil cymunedau a’u gwneud yn ddeniadol i drigolion a chyflogwyr presennol/potensial;
- datblygu medrau, hyder trigolion lleol a’u rhagolygon o gael gwaith, gan sicrhau bod holl aelodau’r gymuned yn gallu manteisio ar gyfleoedd gwaith newydd.

*Cyflawnir yr amcanion hyn drwy’r mesurau canlynol:*

## MESUR 1 - Datblygu Gallu a Chynlluniau Cymunedol mewn Cymunedau Trefol

**6.12 Disgrifiad a Rhesymeg**

6.12.1 Mae’r Strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd cymunedau cryf a gweithredol yn y broses o adfywhau economaidd. Mae datblygu galluoedd cymunedol a chynlluniau sydd â chymunedau yn ganolog iddynt yn holl bwysig i adfywhau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Dwyrain Cymru Drefol.

6.12.2 Rhaid i bobl mewn cymunedau gael cyfle i ddatblygu eu hymatebion eu hunain i’r anghenion y maent yn eu nodi. Gan weithio fel partneriaid cyfartal gyda asiantaethau eraill a busnesau lleol, gallant wneud cyfraniad gwirioneddol at ddylunio a gweithredu strategaethau adfywhau lleol a chynlluniau cymunedol, ac at eu cynaladwyedd yn y tymor hir. Mae ffrwythau’r strategaethau hynny - boed y rhain yn welliannau ffisegol ac amgylcheddol, yn adeiladau newydd, gwasanaethau neu gyfleusterau newydd - yn cael eu defnyddio’n well, yn cael gwell gofal ac yn cael eu cynnal yn well.

6.1.2.3 Mae ar adfywhau cymunedol llwyddiannus a chynaladwy angen agwedd sy’n harneisio sgiliau, gwybodaeth ac ymrwymiad pobl leol ac adnoddau ac arbenigedd yr asiantaethau sy’n eu gwasanaethu. Mae angen partneriaethau cyhoeddus/ cymunedol/gwirfoddol/preifat effeithiol i gryfhau gallu grwpiau a mudiadau lleol a galluogi’r cymunedau eu hunain i chwarae rôl allweddol yn y gwaith o adfywhau eu cymuned. Bydd partneriaethau sy’n ymwneud â’r gymuned fel partner cyfartal yn ffurfio sail ar gyfer y gweithredu i’w gefnogi o dan y mesur hwn.

6.12.4 Mae llawer o gymunedau o fewn Dwyrain Cymru Drefol yn wynebu llu o anfanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Bydd gwell mynediad at wasanaethau a chyfleoedd lleol yn cyfrannu at y broses adfywhau. Mae gwella delwedd ac amgylchedd cymunedau o dan anfantais yn hanfodol i wella balchder trigolion yn eu cymuned a’u gwneud yn fwy deniadol i fuddsoddwyr newydd/

busnesau brodorol.

6.12.5 Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogi datblygiad asedau sy'n creu refeniw sy'n eiddo i'r gymuned sy'n galluogi trigolion i chwarae rôl ganolog yn y gwaith o adfywhau eu cymuned tra'n gwella cynaladwyedd economaidd tymor hir y gwasanaeth/cyfleuster cymunedol.

6.12.6 Y mater allweddol ar gyfer y mesur hwn yw annog a darparu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad gweithredol pob oed a gr@p yn y gymuned a buddsoddi mewn cynlluniau cymunedol cynaladwy sy'n cyfrannu at adfywhad a gwelliant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Er mwyn sicrhau bod gweithredu wedi ei dargedu at yr unigolion a'r cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf, seilir agwedd integredig at adfywhau ar yr anghenion a'r cyfleoedd a nodwyd gan y gymuned. Bydd gweithredu cadarnhaol yn y maes hwn yn cynorthwyo i wella delwedd cymuned, gan hyrwyddo synnwyr o falchder ac o berthyn .

**6.12.7 Rhychwant**

- cryfhau gallu grwpiau a mudiadau lleol i ddatblygu a rheoli eu gwaith eu hunain, ac i weithio fel partneriaid gydag asiantaethau eraill.
- cynorthwyo cymunedau i ysgogi, sefydlu a chynnal partneriaethau sy'n ymwneud ag asiantaethau'r sector cyhoeddus a/neu breifat er mwyn datblygu a gweithredu strategaethau lleol gydag allbwn mesuradwy a gytunwyd gan y partneriaid i gyd.
- gwella mynediad cymunedol at wasanaethau yn y prif lif a darparu gwasanaethau cynghori a chynnal newydd ac integredig i gymunedau a grwpiau sy'n cael eu heithrio'n gymdeithasol, wedi eu cyflwyno drwy amrywiaeth o ffyrdd hygyrch heb fod yn rhai traddodiadol.
- darparu arian dechreuol a chymorth grant i grwpiau cymunedol a chynlluniau cymunedol fel dull o greu hyder a thynnu sylw'r gymuned.
- datblygu adnoddau i gynorthwyo cymunedau fel cyswllt cymunedol, dulliau o gysylltu â chymunedau a meithrinfeydd cymunedol.
- cefnogi a chynorthwyo'r gymuned i wneud gwerthusiadau, arolygon ac astudiaethau priodol.
- annog a chefnogi sefydlu cynlluniau hunan-gymorth a rhwydweithiau cymunedol.
- cynyddu diogelwch cymunedol a chwtogi ar ofn trosedd.
- gwella delwedd ac amgyffred cymunedau ac adfywhau'r amgylchedd ffisegol.
- datblygu adeiladau newydd ac adeiladau wedi eu hadnewyddu a chyfleusterau i greu refeniw i bwrpas cymunedol.
- sicrhau bod grwpiau ar yr ymylon yn cyfrannu mwy drwy weithgareddau hamdden adloniadol a gweithgareddau allan o'r ysgol arloesol.
- goresgyn eithrio drwy ddatblygu cynlluniau cludiant cymunedol a chynlluniau cludiant sy'n gwella mynediad at waith, cyfleoedd hyfforddi, gwasanaethau cymunedol neu weithgaredd gwirfoddol.
- gwella hygyrchedd cymunedol at dechnolegau newydd, Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu.

## MESUR 2 - Datblygu'r Economi Cymdeithasol

### 6.13 Disgrifiad a Rhesymeg

6.13.1 Yr economi gymdeithasol yw'r trydydd sector economaidd - yn gyfochrog â'r sectorau cyhoeddus a phreifat - cyfrannwr cynyddol at ddatblygiad yr economi. Gyda'u gwreiddiau mewn cydymddibyniaeth, mae mudiadau sy'n bodoli i beidio â gwneud elw yn yr economi gymdeithasol yn cyfuno gweithgareddau economaidd gyda phwrpas cymdeithasol neu foesol. Cyfrannant yn uniongyrchol at gyflogaeth a thwf economaidd, a darparant wasanaethau o bwysigrwydd cymdeithasol neu amgylcheddol.

6.13.2 Mae mentrau cymunedol a busnesau yn chwarae rôl bwysig yn y gwead economaidd a chymdeithasol. Bydd cefnogi'r economi gymdeithasol a mentrau cymunedol o dan y Flaenoriaeth hon yn cynyddu gweithgaredd economaidd o fewn cymunedau sydd o dan anfantais ac yn cyfrannu at greu cyfoeth. Yn ogystal â chreu cyfleoedd gwaith newydd, gallant hefyd ddarparu cyfleusterau diwylliannol a chymdeithasol sy'n helpu i adfywhau cymunedau lleol.

6.13.3 Amcan allweddol y flaenoriaeth hon yw datblygu potensial yr economi gymdeithasol fel rhan o strategaeth gydlynus ac integredig o adfywhad economaidd cymunedol.

6.13.4 Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth yngl~n â'r cyfraniad y gall mudiadau yr economi gymdeithasol ei wneud i gymunedau er mwyn ysgogi a chefnogi eu creu a'u ehangu. Bydd mwy o fynediad at gyngor, cymorth a sefydliadau ariannol yn cefnogi twf a datblygiad yr economi gymdeithasol ac yn galluogi mudiadau i gysylltu eu gweithgareddau â datblygiad economaidd y prif lif.

6.13.5 Bydd cydweithrediad rhwng yr economi gymdeithasol a'r sector cyhoeddus/ preifat yn elfen bwysig yn natblygiad ac integreiddio'r trydydd economi i ddatblygiad economaidd y prif lif. Rhaid annog rhwydweithio a chyfnewid arfer da o fewn unrhyw weithredu o dan y flaenoriaeth hon.

### 6.13.6 Rhychwant

- datblygu busnesau newydd o fewn yr economi gymdeithasol ac annog twf cynaladwy mewn gwaith ac incwm ymysg busnesau o fewn yr economi gymdeithasol.
- cefnogi a buddsoddi mewn mentrau cymunedol cynaladwy sy'n cyfrannu at adfywhau a gwelliant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- cryfhau cysylltiadau rhwng y gymuned a'r sector busnes lleol er mwyn annog a datblygu menter ar lefel gymunedol.
- annog cydweithrediad, rhwng mentrau'r economi gymdeithasol a rhwng yr economi gymdeithasol a'r sector preifat a chyhoeddus, er mwyn gwella ansawdd ac amrywiaeth y

gwasanaethau y gallant eu cynnig, ac effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd eu darparu.

- cyrraedd cyfalaf risg/menter, sicrwydd benthyciadau, grantiau dechreuol, arian i ddechrau cynlluniau ac arian ar gyfer is-adeiledd.
- ymgymryd ag archwiliadau cymdeithasol i nodi potensial ar gyfer datblygiadau o fewn yr economi cymdeithasol.
- cefnogi cyrff o fewn yr economi gymdeithasol i brynu neu gaffael a chynnal eiddo, tir, offer neu asedau eraill sy'n creu incwm, cwtogi ar orbenion, cynyddu cynaladwyedd a chyfrannu at gyflawni eu hamcanion cymdeithasol.
- nodi potensial i drosglwyddo asedau o gyrff eraill i fudiadau cymunedol, a hwyluso a chynorthwyo gyda chostau trosglwyddo.
- darparu gofal plant y gellir ei fforddio a gwasanaethau gofal eraill sy'n rhyddhau gofalwyr ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant neu weithgaredd ystyrlon arall.

## MESUR 3 - Sgiliau i gynnal Adfywhau Economaidd Cymunedol

### 6.14 Disgrifiad a Rhesymeg

6.14.1 Bydd y mesur hwn yn cefnogi gweithgaredd i ddatblygu sgiliau sy'n ffurfio rhan hanfodol o'r mesurau eraill yn y flaenoriaeth hon. Mae'r rôl y bydd datblygu sgiliau o fewn cymunedau o dan anfantais yn ei chwarae i gyflawni adfywhad economaidd cymunedol yn hanfodol.

6.14.2 Mae angen camau cadarnhaol i wella sgiliau a cymwysterau trigolion lleol ynghyd â'r lefel o gyflogaeth cynaladwy o fewn cymunedau.

6.14.3 Bydd y mesur yn cefnogi mesurau sy'n ymestyn allan i symud rhwystrau i hyfforddiant a sicrhau bod gan drigolion lleol ran mewn gweithgareddau galwedigaethol sy'n gysylltiedig â'u hanghenion a'u dyheadau am waith. Rhaid i drigolion fod â'r hyder a'r sgiliau angenrheidiol i gystadlu am gyfleoedd gwaith lleol.

6.14.4 Bydd y camau a gymerir yn datblygu sgiliau, hyder a rhagolygon gwaith trigolion lleol, gan sicrhau bod holl aelodau'r gymuned yn gallu manteisio ar gyfleoedd gwaith newydd.

### 6.14.5 Rhychwant

- cynyddu sgiliau, gwybodaeth a hyder pobl leol i weithredu i helpu eu hunain yn unigol ac ar y cyd ac i sefydlu a chymryd rhan mewn mudiadau a gweithgareddau cymunedol.
- cynyddu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau drwy weithgaredd cymunedol.
- darparu cefnogaeth o ran hyfforddiant a chyflogaeth i'r rhai hynny sy'n ymwneud â datblygu partneriaeth/gweithio mewn partneriaeth ac i bartneriaethau newydd a sefydlwyd lle mae grwpiau

cymunedol yn aelodau canolog.

- darparu cefnogaeth o ran hyfforddiant a gwaith i'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu cymunedol.
- darparu gweithgareddau yn y canol rhwng y farchnad waith sy'n rhoi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant.

# Blaenoriaeth 4 - Ymdrin â'r ffaith fod Ardaloedd Gwledig ar yr Ymylon a Datblygu Cymunedau

**6.15 Disgrifiad a Rhesymeg**

6.15.1 Mae'r dwysedd poblogaeth cyffredinol anghyffredin o isel yn Nwyrain Cymru Wledig, ynghyd â phatrwm aneddu a nodweddir gan wasgariad, heb unrhyw drefi mawr a chyda dros 50% o'r boblogaeth yn byw ar ffermydd ac mewn aneddiadau llai, yn arwain at ynysiad cyffredinol oddi wrth ganolfannau gwasanaeth a phroblemau yn gysylltiedig â bod ar yr ymylon. Collwyd hyder yn dilyn colli gwaith, incwm isel, newidiadau yn y boblogaeth, dirywiad yn y gwasanaethau a ddarperir a chwalfa gymdeithasol. Mae cymunedau yn y gorffennol wedi gweithredu yn ynysig oddi wrth ei gilydd hefyd a chafodd hyn ei bwysleisio gan safbwyntiau plwyfol a hanes o gymorth grant sydd wedi bod yn gystadleuol ac wedi atal cymunedau rhag gweithio gyda'i gilydd.

6.15.2 Adfywhad cymunedol yw'r broses o adnewyddu bywiogrwydd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal. Mae hyn yn dibynnu ar y cyfraniad y gall unigolion ei wneud i'r broses a datblygu sgiliau trefnu ac arwain priodol o fewn y gymuned. Yr amcan yw creu cymunedau gwledig lle mae pobl am fyw a gweithio, a lle ceir mynediad at gyfleoedd a manteision economaidd, amgylchedd dymunol a diogel, a rhwydweithiau cymdeithasol bywiog a chynhwysol.

6.15.3 Mae nifer o gymunedau yn cael eu hynysu fwyfwy oherwydd cyfleusterau cludiant cymunedol a chyhoeddus gwael a'r ffaith fod is-adeiledd y tele-gyfathrebau yn sylfaenol iawn sy'n cyfyngu'r posibiliadau o ddefnyddio'r technolegau newydd sydd ar gael i wrthsefyll y ffaith fod unigolion, cymunedau a busnesau bychain yn cael eu gwthio i'r ymylon.

**6.15.4 Amcanion y rhoddir Blaenoriaeth iddynt**

- hyrwyddo gweithredu cymunedol ar y cyd gan annog cyfraniad yr holl sectorau o fewn y gymuned a thrwy bartneriaethau rhwng cymunedau ynysig bychain i ddatblygu cynlluniau sy'n cael eu rhannu ac adfywhad cymunedol;
- gwella sgiliau a chynyddu lefelau hyder grwpiau lleol ac unigolion a thrwy hynny eu galluogi i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at y broses o adfywhau;
- datblygu cynlluniau menter cymunedol a fydd yn galluogi cymunedau i hyrwyddo gweithredu arloesol cynaladwy i wella gwasanaethau gwledig, i fabwysiadu arfer amgylcheddol gorau ac i ddatblygu

busnesau cymunedol hyfyw;
- gwella a datblygu’r modd y cymhwysir technolegau gwybodaeth a chyfathrebu a mynediad at rwydweithiau band llydan * i gynorthwyo i gwtogi ar effaith pellter oddi wrth wasanaethau, gwella mynediad at hyfforddiant, cynnal datblygiad economaidd a chymunedol a hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol;
- cynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd drwy ddatblygu mesurau cynnal sy’n seiliedig ar ardaloedd lleol gan gynnwys cynlluniau gofal plant a gofal am yr henoed.

* Ystyrir "band llydan" fel arfer fel lled band yn yr amrediad 2 - 155 megabit yr eiliad. Mae lled band yn fesur o faint mae cyswllt tele-gyfathrebau yn gallu ei gario, ac mae ar wasanaethau modern (gan gynnwys cymwysiadau aml-gyfrwng a chynadledda fideo) angen lled band llawer uwch na’r hyn sydd ar gael fel arfer mewn ardaloedd gwledig.

*Cyflawnir yr amcanion hyn yn bennaf drwy’r mesurau canlynol:*

## Mesur 1 - Datblygu Cymunedau Cynaladwy

### 6.16 Disgrifiad a Rhesymeg

6.16.1 Mae cymunedau o fewn Dwyrain Cymru Wledig yn wynebu anfanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol lluosog gyda dwyseddau poblogaeth isel yn arwain at y ffaith fod gwasanaethau cyfyngedig a gwasanaethau amhriodol ar gael. Er mwyn sicrhau y targedir gweithredu at yr unigolion a’r cymunedau hynny sydd â’r angen mwyaf, bydd angen hyrwyddo agwedd integredig tuag at adfywhau a fydd yn seiliedig ar yr anghenion a’r cyfleoedd a nodwyd gan y gymuned. Rhaid cynnig i bobl y sgiliau i barhau i greu’r hyder sy’n angenrheidiol i ddatblygu atebion lleol i’r materion y maent yn eu hwynebu a’u cynorthwyo i gyfranogi fel partneriaid cyfartal gyda chyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol priodol. Cefnogir datblygu a gweithredu strategaethau sy’n deillio o bartneriaethau o’r fath o dan y mesur hwn. Yn yr un modd bydd partneriaethau rhwng grwpiau o gymunedau yn gweithio gyda’i gilydd ar fentrau ar y cyd yn yn cael eu hyrwyddo a’u cynorthwyo.

6.16.2 Er mwyn creu mantais economaidd bydd gweithredu cadarnhaol yn y maes hwn yn cynorthwyo i wella delwedd cymuned, gan hyrwyddo hunan-barch a synnwyr o berthyn.

### 6.16.3 Rhychwant

- datblygu a gweithredu prosiectau adfywhau a gytunwyd drwy weithio mewn partneriaeth newydd a chynhwysol, o fewn cymunedau unigol a thrwy gynlluniau ar y cyd rhwng nifer o gymunedau;
- cynyddu cynhwysiant drwy annog a darparu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad actif pob oed a sector o fewn y gymuned drwy wella sgiliau a hyder unigolion a thrwy wella yr amgylchedd economaidd, ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol;
- annog a hyrwyddo cymunedau i weithio gyda’i gilydd ac mewn partneriaeth gyda’r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i sicrhau agwedd mwy integredig sy’n cynnig gwerth gorau;
- darparu modd i asiantaethau weithio gyda chymunedau a chyda phartneriaethau mewn ffyrdd

newydd sy’n rhoi’r gymuned wrth galon adfywhad ac adnewyddiad;

- cynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfranogi yn y celfyddydau, gweithgareddau diwylliannol, cymdeithasol ac adloniadol a thrwy hynny wella ansawdd bywyd pobl a chynaladwyedd cymunedau gwledig.

## Mesur 2 - Datblygu Menter Cymunedol a’r Economi Gymdeithasol

### 6.17 Disgrifiad a Rhesymeg

6.17.1 Yr economi gymdeithasol yw’r trydydd sector economaidd - yn gyfochrog â’r sectorau cyhoeddus a phreifat - a chyfrannwr cynyddol at ddatblygiad yr economi wledig. Gyda’u gwreiddiau mewn cydymddibyniaeth, mae cyrff sy’n bodoli i beidio â gwneud elw yn yr economi gymdeithasol yn cyfuno gweithgareddau economaidd gyda phwrpas cymdeithasol, moesol. Cyfrannant yn uniongyrchol at gyflogaeth a thwf economaidd, a gallant hefyd ddarparu gwasanaethau o bwysigrwydd cymdeithasol neu amgylcheddol.

6.17.2 I sicrhau busnesau a mentrau cymunedol cynaladwy rhaid i weithgaredd economaidd fod wedi ei anelu tuag at gwrdd ag anghenion cymunedau sy’n bodoli a dylai fod yn briodol ar gyfer yr amgylchedd ffisegol y mae’n cael ei leoli o’i fewn. Yn ogystal at greu swyddi a chyfoeth maent hefyd yn datblygu cyfleusterau diwylliannol a chymdeithasol sy’n cynorthwyo i wneud cymunedau ar yr ymylon yn fannau bywiog i fyw a gweithio ynddynt. Mae angen cefnogaeth ac adnoddau i ddatblygu twf busnesau hyfyw o fewn yr economi gymdeithasol sy’n datblygu sgiliau ac yn cynhyrchu swyddi a/neu gynhyrchion economaidd a diwylliannol eraill o fewn ardaloedd gwledig.

### 6.17.3 Rhychwant

- codi ymwybyddiaeth yngl~n â’r cyfraniad potensial y gall mudiadau’r economi gymdeithasol ei wneud i gymunedau gwledig;
- ysgogi, datblygu a chefnogi creu ac ehangu busnesau cymunedol i gwtogi ar y manteision economaidd sy’n cael eu colli o’r ardal a chynyddu’r cyfoeth sy’n cylchdroi o fewn cymunedau gwledig;
- rhoi’r sgiliau priodol i unigolion a grwpiau i sefydlu a gweithredu mentrau cymunedol;
- annog mentrau economi’r trydydd sector i gydweithredu gyda’r sector preifat, gwirfoddol a chyhoeddus yn eu cymunedau a chysylltu eu gweithgareddau â datblygiad economaidd y prif lif;
- cynyddu mynediad at gyngor arbenigol a chymorth ariannol a chynorthwyo cyrff yr economi gymdeithasol i ddatblygu cynlluniau yn y canol rhwng y farchnad lafur e.e. lleoliadau gwaith, ymarfer at fenter);
- datblygu gofal plant cynaladwy a fforddiadwy a gwasanaethau gofal eraill sy’n rhyddhau gofalwyr ar gyfer gwaith, hyfforddiant ac addysg.

## Mesur 3 - Gwella Mynediad at Rwydweithiau Cyfathrebu Band Llydan a Datblygu Gwasanaethau TGCh

### 6.18 Disgrifiad a Rhesymeg

6.18.1 Mae gan dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu modern (TGCh) rôl sylfaenol i’w chwarae yn y gwaith o gynorthwyo i gwtogi ar effaith pellter oddi wrth wasanaethau. Mae gan y technolegau hyn rôl arbennig o bwysig i’w chwarae mewn ardaloedd gwledig tenau eu poblogaeth. Mae’r cymwysiadau aml-gyfrwng sy’n datblygu’n gyflym yn cynnig posibiliadau o welliant gwirioneddol mewn lles economaidd ac ansawdd bywyd i’r rhai hynny sy’n bell oddi wrth ganolfannau gwasanaeth. Ond mae ardaloedd gwledig fel arfer yn dioddef o ddiffyg mynediad at rwydweithiau band llydan, modern, digidol * a cheir lefel isel o werthfawrogiad o fanteision potensial TGCh mewn datblygiad economaidd a chymunedol, ychydig o wasanaethau cefnogi sydd ar gael yn lleol a chymharol ychydig o bobl sydd â’r sgiliau, y profiad a’r wybodaeth i ddatblygu a hyrwyddo atebion yn seiliedig ar TGCh i broblemau tymor hir. Mae Prosiect Llwybr- Pathway a ariannwyd gan ERDF, a ddatblygwyd yng nghyd-destun cynllun Sialens Ranbarthol y DG, wedi dangos yn llwyddiannus sut i gefnogi, annog a hyrwyddo manteisio ar TGCh mewn ardaloedd gwledig, ac mae’n rhaid i’r gwaith a wnaed gan y cynllun hwn gael ei barhau a’i ddatblygu.

* Ystyrir hyn fel arfer fel lled band sy’n fwy na 2 megabit yr eiliad .

6.18.2 Yn nhermau tele-gyfathrebu a nifer y rhai sy’n manteisio ar gynlluniau a chymwysiadau’r Gymdeithas Wybodaeth mae "mynediad at led band * " yn yr ardal wledig yn fater datblygu hanfodol. Er ar lefel y DG bod cystadleuaeth yn y farchnad tele-gyfathrebu, yn ardal Amcan 2 Dwyrain Cymru Wledig BT yw’r cyflenwr monopoli *de facto* ac mae’r sail cwsmeriaid cymharol fychan a’r pellterau hir o dan sylw yn golygu nad yw’r ardal yn gyffredinol yn un ddeniadol ar gyfer buddsoddiad newydd.

* Mae lled band yn fesur o faint mae cyswllt tele-gyfathrebau yn gallu ei gario, ac mae ar wasanaethau modern gan gynnwys cymwysiadau aml-gyfrwng a chynadledda fideo angen lled band llawer uwch na’r hyn sydd ar gael fel arfer mewn ardaloedd gwledig .

6.18.3 Ar y cyfan, darperir yn ddigonol ar gyfer yr ardal yn nhermau is-adeiledd cyfathrebu band cul, a fydd yn cefnogi mynediad sylfaenol i’r Rhyngrwyd a’r We Fyd-eang gan ddarparu cyfleusterau post electronig syml (e-bost) a mynediad i safleoedd gwe i fusnesau ac unigolion. Ond ni fydd yr is-adeiledd presennol serch hynny yn cynnal mynediad ar gyflymder uwch sy’n angenrheidiol ar gyfer cymwysiadau aml-gyfrwng sy’n datblygu’n gyflym, sy’n gwneud defnydd o ddelweddu awdio a fideo (gan gynnwys y meysydd dysgu o bell, cynadleddau fideo, cynadleddau bwrdd gwaith, tele-feddygaeth, masnachu electronig ac ati) sydd i gyd angen lled band sydd ymhell y tu hwnt i’r hyn a gynigir gan wasanaethau band cul confensiynol.

6.18.4 Mae mynediad i’r lled band gwell a gynigir, er enghraifft gan ISDN * a *Home Highway* gan BT ar gael i ddim ond cyfran fechan o’r boblogaeth wledig, oherwydd fe’i cyfyngir fel arfer i o fewn 3 neu 4 km o gyfnewidfa ffôn fawr. Mae’r gwasanaethau hyn yn dal yn amrediad y "band cul" ac yn cael eu

disodli gan ddatblygiadau fel ADSL * , technoleg sy’n ei gwneud yn bosibl i gael mynediad at wasanaethau gyda lled band cymharol uchel dros y llinellau ffôn confensiynol sy’n mynd i dai, swyddfeydd ac adeiladau busnes. Mae cyflwyno ADSL newydd ddechrau - yn ninasoedd mwyaf Prydain a (diolch i gynllun mawr sy’n deillio o Raglen Amcan 5b Cymru Wledig 1994-1999) mewn deg o’r trefi mwyaf yn y Gymru wledig.

* Integrated Services Digital Network; mae ISDN 2 yn darparu 128 Megabit yr eiliad bydd yn cefnogi, er enghraifft, gynadleddau fideo sylfaenol ‘un i un’

* ‘Asynchronous Digital Subscriber Line’

6.18.5 Bydd dyfodiad technolegau newydd, fel ADSL ar gyfer cyflwyno cyfathrebu yn lleol ar led band uwch, yn ysgogi creu gwasanaethau ar gyfer lled band uchel, ond eto unwaith eto cyfyngir yn ddifrifol ar fynediad at y gwasanaethau hyn yn nhermau pellter o’r gyfnewidfa ffôn - mae’r lled band sydd ar gael yn gostwng yn gyflym fwy nag ychydig gilometrau o’r gyfnewidfa. Mae hyn felly yn cyfyngu’r manteision i’r trefi mwy a’r cefn gwlad cyfagos, ac yn methu â chynnig unrhyw fanteision i fwyafrif y boblogaeth sy’n byw yn y trefi llai, y pentrefi a’r ardaloedd gwledig.

6.18.6 Dangosodd profiad diweddar yn amlwg nad oes unrhyw ysgogiad i gwmnïau tele-gyfathrebu preifat fuddsoddi yn y Gymru wledig, ond eto byddant yn gwneud hynny lle ceir elfen o gefnogaeth gyhoeddus, a rhywfaint o argoel y bydd nifer rhesymol yn manteisio ar y gwasanaethau uwch. Dangosodd profiad hefyd a derbyn y gost uchel sy’n gysylltiedig â phellter o gael lled band ychwanegol, mai’r unig ddewis hyfyw i asiantaethau a chyrff yw ymuno â’i gilydd a rhannu defnydd llinellau lled band uwch (e.e. Kilostream a Megastream), a chyfleusterau ac arbenigedd.

6.18.7 I sicrhau bod gan yr ardal wledig lefel sylfaenol o wasanaeth na fydd yn rhoi busnesau gwledig a'r boblogaeth o dan ormod o anfantais, mae’n rhaid i drefi marchnad a phentrefi mwy (fel isafswm) gael mynediad fforddiadwy at rwydweithiau band llydan. Mae darpariaethau o’r fath yn sylfaenol i adeiladu cymunedau cynaladwy a datblygu cymunedau a’r economi ehangach.

**6.18.8 Rhychwant**

- cynyddu mynediad fforddiadwy at rwydweithiau band llydan;
- cynyddu ymwybyddiaeth o fanteision economaidd a chymunedol cymwysiadau TGCh, yn arbennig ymysg Mentrau Bychain a Chanolig;
- Gwella gwasanaethau cynnal TGCh, fel y gall Mentrau Bychain a Chanolig er enghraifft gael mynediad at lefel debyg o gefnogaeth dechnegol i’r hyn a fwynheir gan gwmnïau mwy a chyrff corfforaethol;
- gwella lefelau sgiliau a’r sail gwybodaeth o fewn yr ardal.

## Mesur 4 - Gwella Hygyrchedd Gwledig drwy Gynlluniau Cludiant

**6.19 Disgrifiad a Rhesymeg**

6.19.1 Mae hygyrchedd i ac o fewn yr ardal wledig, ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd yn gyffredinol wael. Nid oes unrhyw draffyrdd, dim gwasanaethau gan y brif linell rheilffordd a dim gwasanaeth awyr. Mae gwasanaethau cludiant cyhoeddus rheolaidd yn brin. Mae hygyrchedd at wasanaethau sylfaenol fel arfer yn anodd ac yn golygu teithiau hir, a hynny'n arferol heb gludiant cyhoeddus. Nid oes Ysbyty Cyffredinol ac mae teithiau 60+ km mewn ambiwlans yn gyffredin. Nid oes yma sefydliad Addysg Uwch ac mae dros hanner y boblogaeth o oedolion yn byw fwy na 5 milltir oddi wrth Ganolfan Waith. Mae angen difrifol am wella hygyrchedd at wasanaethau a chyfleusterau.

6.19.1 Nid oes ond dau lwybr rheilffordd - llinell y Cambrian sy'n mynd o'r dwyrain i'r gorllewin drwy'r Trallwng, y Drenewydd a Machynlleth yn Sir Drefaldwyn (gogledd Powys) a llinell Calon Cymru sy'n rhedeg o Drefyclawdd yn nwyrain Maesyfed, i'r de-orllewin drwy Landrindod, Llanwrtyd a Llanymddyfri gan ddiweddu yn Llanelli ar arfordir deheuol Cymru.

6.19.3 Mae cyfle sylweddol i ddatblygu ymhellach ac integreiddio gwasanaethau cludiant cyhoeddus a chymunedol, yn arbennig ar gyfer teithiau i'r gwaith, lle mae'r car preifat yn dal yn ddull pennaf o deithio. Mae angen dod o hyd i atebion arloesol i gwtogi ar y ddibyniaeth ar y car preifat ac ar yr un pryd gyflwyno cyfleoedd a gwella hygyrchedd ar gyfer y rhai heb fynediad at gludiant cyhoeddus. Ceir rôl bwysig a chynyddol i gludiant cymunedol i bobl a chymunedau nad yw gwasanaethau rhestredig a cheir preifat bob amser yn hygyrch iddynt. Mae gan y sector gwirfoddol rôl allweddol i chwarae yn hyn.

6.19.4 Mae cyfle i gynyddu trafnidiaeth ar y ddau lwybr rheilffordd yn arbennig ar gyfer teithiau i'r gwaith, a chynyddu niferoedd ymwelwyr.

6.19.5 Yn gyffredinol, mae prif rwydwaith y priffyrdd yn yr ardal wledig yn ddigonol, er bod angen gwelliannau ar rai o'r prif lwybrau er mwyn ymdrin â thagfeydd sy'n achosi oedi, costau ychwanegol i fusnesau ac yn atal buddsoddwyr posibl.

**6.19.6 Rhychwant**

- cefnogi asesu a datblygu Cynlluniau Cludiant Cymunedol newydd.
- gwella'r modd y mae'r holl wasanaethau cludiant cyhoeddus yn cael eu cydlynu a'u hintegreiddio
- cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth yngl~n â'r holl gynlluniau cludiant.
- cefnogi datblygiad gwasanaethau TGCh, gan gynnwys e-bost, i hyrwyddo cynlluniau cludiant cyhoeddus a chymunedol.
- cludo mwy o nwyddau ar y rheilffyrdd yn hytrach na chludo ar y ffyrdd a chefnogi rhannu cludiant ar y ffyrdd i gwtogi ar gostau ac effaith amgylcheddol.

## Adran 7 Tablau Ariannol

7.1 Bydd tua £50 miliwn ar gael i ardaloedd Amcan 2 Dwyrain Cymru dros gyfnod y rhaglen a thua £18 miliwn i ardaloedd Trosiannol Dwyrain Cymru.

7.2 Gofynnwyd i Wladwriaethau sy'n Aelodau ddosbarthu'r adnoddau hyn rhwng ardaloedd cymwys ar sail poblogaeth syml fel bod y dosbarthiad yn un teg per capita. Argymhella Partneriaeth Dwyrain Cymru y dylid sicrhau bod yr un egwyddor yn cael ei chymhwyso at ddosbarthu adnoddau rhwng ardaloedd trefol a gwledig cymwys Dwyrain Cymru.

7.3 Ar y sail poblogaeth hwn bydd tua 60% o arian Amcan 2 yn cael ei ddyrannu i'r ardaloedd trefol cymwys yng Nghaerdydd a Chasnewydd a thua 40% i ardaloedd gwledig cymwys Powys. Yn yr un modd, dyrennir rhyw 70% o'r cronfeydd Trosiannol i'r ardaloedd trefol cymwys yng Nghaerdydd, Casnewydd a Bro Morgannwg a rhyw 30% i'r ardaloedd gwledig Trosiannol yn Sir Fynwy, Powys a Wrecsam.

7.4 Bydd y Ddogfen Rhaglennu Sengl derfynol ar gyfer Dwyrain Cymru yn cynnwys tablau ariannol sy'n rhannu'r cronfeydd hyn yn nhermau arian rhwng Blaenoriaethau'r Rhaglen. Ond i bwrpas ymgynghori, mae'r ddogfen hon yn mynegi'r modd y bwriedir dosbarthu'r arian rhwng Blaenoriaethau yn nhermau canrannau wedi eu talgrynu, er mwyn hwyluso trafodaeth a sylwadau.

**ARDALOEDD ADRAN 2**

**DYRANIADAU ARIANNOL ARFAETHEDIG (fel canrannau o'r cyfanswm )**

| **Blaenoriaeth** | **Teitl** | **Gwledig** | **Trefol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Natur Cystadleuol Busnesau a Menter | 20% | 40% | 60% |
| 2 | Adfywhau'r Economi Amaethyddol | 10% | d/g | 10% |
| 3 | Adfywhau'r Gymuned Drefol | d/g | 20% | 20% |
| 4 | Ymdrin â'r Ffaith fod Ardaloedd Gwledig ar yr Ymylon a Datblygu Cymunedau | 10% | d/g | 10% |
| | | 40% | 60% | 100% |

**ARDALOEDD TROSIANNOL**

**DYRANIADAU ARIANNOL ARFAETHEDIG (fel canrannau o’r cyfanswm)**

| **Blaenoriaeth** | **Teitl** | **Gwledig** | **Trefol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Natur Cystadleuol Busnesau a Menter | 15% | 40% | 55% |
| 2 | Adfywhau’r Economi Amaethyddol | 5% | d/g | 5% |
| 3 | Adfywhau’r Gymuned Drefol | d/g | 30% | 30% |
| 4 | Ymdrin â'r Ffaith fod Ardaloedd Gwledig ar yr Ymylon a Datblygu Cymunedau | 10% | d/g | 10% |
| | | 30% | 70% | 100% |

# Adran 8 Gweithredu

8.1 Gweithredir rhaglen Amcan 2 a’r rhaglen Drosiannol mewn modd tebyg i’r hyn a argymhellir ar gyfer rhaglenni’r Cronfeydd Strwythurol eraill yng Nghymru, gan gynnwys Amcan 1.

8.2 Bydd tair ffordd y gall cyrff gael mynediad at raglen newydd Amcan 2 a’r rhaglen Drosiannol:

- Drwy anfon ceisiadau uniongyrchol ar gyfer prosiectau i weithrediaeth y Rhaglen; y dull traddodiadol o gael mynediad at Gronfeydd Strwythurol
- Drwy becynnau themâu.
- Drwy becynnau lleol.

**8.3 Cynlluniau Gweithredu**

8.4 Bydd Cynlluniau Gweithredu yn ymdrin â "thema" fel Twristiaeth neu Ymchwil a Datblygiad - neu ardal ddaearyddol leol. Byddant yn derbyn arian yn flynyddol, yn arferol ar gyfer tair blynedd i ymdrin â phroblemau eu pwnc neu eu hardal ddaearyddol mewn dull strategol. Dylai’r agwedd newydd sicrhau bod prosiectau sy’n cynnal ardal neu sector arbennig yn gyflenwol, gan weithredu mewn dull strategol ac nad ydynt yn dyblygu ei gilydd.

8.5 Byddai cyrff unigol yn gallu tynnu arian i lawt ar gyfer prosiectau sy’n cwrdd ag amcanion y Cynllun Gweithredu.

8.6 Dylai’r gweithgareddau a’r prosiectau a nodwyd fod wedi eu cysylltu’n glir â strategaeth y cynllun gweithredu a bod yn gyflenwol i’w gilydd.

8.7 Dylai pwyllgorau rheoli’r Cynllun Gweithredu ceisio blaenoriaethu prosiectau yn dibynnu ar eu cyfraniad potensial i nodau ac amcanion y Cynllun Gweithredu a nodwyd ganddynt hwy. Bydd angen i fyrddau rheoli gymryd agwedd strategol yn hytrach na sectoraidd at ddewis prosiectau.

8.8 Penderfynir ar bolisi ar gyfer defnyddio arian y Cynllun Gweithredu gan bartneriaeth a fydd yn cynnwys traean o’r sector cyhoeddus, traean o’r sector preifat a’r undebau llafur a thraean o’r sector gwirfoddol. Disgwylir i’r bartneriaeth weithredu mewn dull agored a thryloyw i ddatblygu strategaethau clir ar gyfer dosbarthu gwybodaeth i amrediad eang o gyrff gyda diddordeb amlwg yn y pecyn ond nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd. Darperir cyngor ac arweiniad yngl~n â hyn gan Weithrediaeth y Rhaglen a fydd ag un cynrychiolydd ar y bwrdd rheoli. Bydd yn rhaid i’r bwrdd gael cefnogaeth weinyddol a ddarperir fel arfer gan y Bwrdd Atebol.

**8.9 Rheoli’r rhaglen**

8.10 Cyflwynir y rhaglen newydd gan asiantaeth weithredol newydd y Cynulliad Cendlaethol a fydd yn gweinyddu holl raglenni’r Cronfeydd Strwythurol yn y cyfnod 2000 - 2006. Bydd yr asiantaeth yn cynghori cyrff sy’n rhedeg Cynlluniau Gweithredu yn ogystal â’r rhai hynny sy’n ceisio defnyddio arian o’r Cynlluniau Gweithredu a’r rhai hynny sy’n dymuno bod yn aelodau o bartneriaethau Cynlluniau Gweithredu.

---

## Partneriaeth Dwyrain Cymru Atodiad A

Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Gwledig

Asiantaeth Menter Caerdydd a’r Fro

Asiantaeth Menter Casnewydd a Gwent

Asiantaeth yr Amgylchedd

Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru)

Awdurdod Datblygu Cymru

BT Cymru

Busnes yn y Gymuned

Bwrdd Croeso Cymru

Bwrdd Elusennau’r Loteri Genedlaethol

CADW

Canolfan Ewropeaidd Cymru

Canolfan Gydweithredol Cymru

CELTEC Cyngor Hyfforddi a Menter Gogledd Cymru

Central Trains Limited (Llinell Canolbarth Cymru)

Chwarae Teg

Coed Cymru

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal

Conffederasiwn Diwydiant Prydain - Cymru

Cronfa Treftadaeth y Loteri

Cymdeithas Addysg y Gweithwyr

Cymdeithas Allforio Canolbarth Cymru

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Gwent

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys

Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru

Cyngor Dinas a Sir Caerdydd

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyngor Hyfforddi a Menter Canolbarth Cymru

Cyngor Hyfforddi a Menter De Ddwyrain Cymru

Cyngor Hyfforddi a Menter Gwent

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Sir Powys

Cyngor Sir y Fflint

Cyngres Undebau Llafur Cymru

Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ffederasiwn y Busnesau Bychain

Fforwm

Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru

Fforwm Economaidd Gogledd Cymru

First North Western Trains Co. Ltd.

Gwyl Cefn Gwlad

Grwp Cynhyrchu Canolbarth Cymru

Grwp LEADER Cadwyn

Grwp LEADER Menter Powys

Great Western Trains Co. Ltd.

Gwasanaeth Cyflogaeth Cymru

Gweithrediaeth Rhaglenni Ewropeaidd Cymru Cyf.

Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd

Llwybr - Pathway

Menter a Busnes

Menter Gymunedol Cymru

North Western Trains Co. Ltd.

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Partneriaeth Canolbarth Cymru

Prifysgol Cymru

Railtrack - Cylchfa’r Canoldir

Railtrack - Cylchfa’r Great Western

Sefydliad Astudiaethau Gwledig Cymru

Sefydliad Cyfarwyddwyr

Sefydliad Gwy

Twristiaeth Canolbarth Cymru Cyf.

Twristiaeth De a Gorllewin Cymru Cyf.

Twristiaeth Gogledd Cymru Cyf.

Undeb Amaethwyr Cymru

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (Cymru)

Virgin Trains (Llinellau Gogledd a Chanolbarth Cymru)

Wales & West Trains

Ymddiriedolaeth Genedlaethol


Ymddiriedolaeth y Tywysog - Bro


Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru

---

**Atodiad B**

# Cymru: Ardaloedd sy’n gymwys am gefnogaeth Rhaglen Cronfa Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd (2000-2006)





© The National Assembly for Wales

CartoGraphics, Planning Division